

Y LLOFFWR



PAPUR BRO
CYLCH DINEFWR

~~~~~  
RHIF 320 - 80c

~~~~~  
RHAGFYR 2010


~~~~~  
[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)



Gareth Edwards a  
Derek Quinnell



Tywysog Charles



Clive Rowlands gyda  
John Dawes



Handel Davies  
gyda Clive  
Rowlands

## Anrhydeddu John Dawes yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri (Gweler tudalen 3)

Lluniau : William Theophilus



C.Ff.I. Llangadog yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru - Gweler tudalen 28



## O GWMPAS BRO DINEFWR

### Pencampwr cenedlaethol

Mae **Alec Jamieson** a'i deulu, Fferm Cwmysgyfarnog, Derwen Fawr wedi ennill cystadleuaeth Weetabix dros Brydain Fawr unwaith eto. Eleni fe greodd gampwaith i ddarlunio'r cymeriadau poblogaidd Wallace a Gromit. Llongyfarchiadau gwresog iddo.

(Llun: Gareth Vaughan Jones)



### Rapsgaliwn yn Salem

Bu Fferm Coed Nadolig Salem yn leoliad i ffilmio un o raglenni S4C yn y gyfres newydd i blant a fydd yn ymddangos ar y teledu ym mis Rhagfyr. Yn y llun ar y chwith gwelir dau o ddisgyblion blwyddyn 3 Ysgol Gynradd Gymraeg Teilo Sant, Llandeilo sef Kellie-Gwen Morgan, Salem a Dyfan Roberts, Derwydd yng nghwmni Rapsgaliwn.



Rhai o'i ffrindiau bach aur ar S4C ar ddechrau'r flwyddyn fydd dau arall o ddisgyblion Ysgol Teilo Sant a ddewiswyd i fynd i ffilmio rhaglen gyda Rapsgaliwn yng Nghaerdydd sef Fflur Davies o Manordeilo a William Charles-Davies o Landeilo (llun ochr dde).

Calendr Y Lloffwr 2011 ar werth yn y siopau **NAWR!!**

neu ffoniwch  
(01558) 825336

Pris - £5

**Anrheg Nadolig Gwych!!**



## CINIO MAWREDDOG

Ar nos Wener, 5 Tachwedd braint **Clwb Rygbi Llanymddyfri** oedd croesawu cinio anrhydeddu John Dawes a gynhaliwyd dan nawdd Ymddiriedolaeth Elusennau Clybiau Rygbi Cymru. Ymhlith y siaradwyr yr oedd Clive Rowlands, John Taylor a Gareth Edwards ond y prif westai oedd Charles Tywysog Cymru. Yn ystod ei araith fel Noddwr Brenhinol Clwb Llanymddyfri, pwysleisiodd ei hoffter dwfn o'r gymuned y mae nawr yn rhan ohoni a'r balchder a'r anrhydedd a deimlodd pan ofynwyd iddo ddod yn noddwr un o glybiau cynharaf Undeb Rygbi Cymru.

Gwahoddwyd y Tywysog hefyd gan gadeirydd y clwb, Handel Davies i ddadorchuddio Bwrdd Swyddogion a Chapteiniaid y Clwb yng Ngorffwysfa'r Porthmyn, cyn cwrdd â chyn chwaraewyr y byd rygbi yng Nghymru, Graham Price, Charlie Faulkner, Tom David, Derek Quinnell, Mervyn Davies, Stuart Watkins, Keith Jarrett, Adrian Hadley, John Perkins, Bryn Meredith, Paul Thorburn a Terry Cobner. Arwyddwyd llyfr yr ymwelwyr hefyd gan gefnwr presennol Cymru, Lee Byrne.

Chwaraeodd **John Dawes** 22 o gemau i Gymru, chwech fel capten, gan gynnwys y Gamp Lawn yn 1971. Yn ystod yr un flwyddyn arweiniodd yr unig dîm o'r Llewod i ennill cyfres yn Seland Newydd. Roedd hefyd yn gapten tîm y Barbariaid yn 1973 wrth iddynt ennill yn erbyn Seland Newydd. Dyna gêm y cais enwog gan Gareth Edwards. O dan hyfforddiant John Dawes rhwng 1974 a 1979 enillodd Cymru bencampwriaeth y pum gwlad bedair gwaith a'r gamp lawn ddwy waith. Hyfforddwyd y Llewod ganddo yn 1977 ar eu taith i Seland Newydd. Ef yw Llywydd presennol Clwb Rygbi Cymru Llundain.



*Tywysog Charles yn sgwrsio gyda Lee Byrne, Handel Davies a John Dawes.*

## EIRIOS THOMAS – Trefnydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr

Merch fferm o Gwm-ann, Sir Gaerfyrddin yw **Eirios Thomas** (Russell gynt). Mae hi'n byw yn Dyffryn, Llanfynydd ac yn briod â Jim Thomas ac mae ganddynt fab a merch Deian a Sara Non. Derbyniodd ei haddysg bellach ym Mangor gan gychwyn ei gyrfa fel athrawes yng Nghlwyd.

Dychwelodd i'w Sir enedigol ym 1977 i fod yn Drefnydd Sirol ar Fudiad y Ffermwyr Ieuainc yn Sir Gâr. Ers hynny mae ei chariad a'i brwdfrydedd tuag at ei swydd, ei chonsyrn am yr ieuenctid ac am sefyllfa amaethyddiaeth y Sir yn ddi-flino. Yn flynyddol mae'n llwyddo i greu ac ysbrydoli, gan lunio rhaglen lawn ac amrywiol o weithgareddau a chystadlaethau i herio'r aelodaeth.

Wrth ymweld â'r clybiau'n gyson, mae'n cadw mewn cysylltiad agos iawn gyda'r aelodaeth a'u teuluoedd gan ennill parch a chydweithrediad teuluoedd o fewn cymunedau lleol.

Wrth i'r aelodau orffen cystadlu yn 26 oed, mae Eirios yn gofalu bod eu cyswllt a'u diddordeb yn y mudiad yn parhau. Fel canlyniad y mae pwyllgorau a sioeau amaethyddol lleol ar eu hennill, ac mewn amser y mae nifer yn dod yn aelodau o Gynghorau bro a Sir ac eraill yn arwain Mudiad y Ffermwyr Ieuainc ar lefel Cymru a Chenedlaethol.

Mae Fforwm Amaeth y Sir yn agos iawn at ei chalon, ac y mae ei hól ar y gweithgareddau a drefnir yn flynyddol. Mae hi'n berson sy'n annog aelodau i fynychu cyrsiau amaethyddol a drefnir yn lleol, ac yn ôl y galw yn trefnu cyrsiau mewn rheolaeth stoc, iechyd a diogelwch ar y fferm, barnu stoc, ac unrhyw weithgaredd a fydd yn hybu gyrfaedd ieuenctid o fewn y byd amaeth. Mae'n gweithio yn agos iawn â Choleg Amaethyddol Gelli Aur, er mwyn dilyn unrhyw ddatblygiadau newydd.

Fe ddisgrifir Eirios Thomas fel un sydd yn byw i Fudiad y Ffermwyr Ieuainc am ei bod yn credu'n gryf bod gan y Mudiad gymaint i'w gynnig i addysg a datblygiad yr aelodau, yn ychwanegol at yr hyn a geir o fewn y dosbarth addysg. Iddi hi y mae pob aelod yn unigolyn, pob un a'i dalent gwahanol, a phob un yn cael yr un sylw ganddi.

Dyma berson ymroddedig tu hwnt, ac un sydd wedi rhoi 33 o flynyddoedd i waith y Mudiad. Dan ei harweiniad y mae Sir Gaerfyrddin yn ennill y Sir orau yng ngweithgareddau y Sioe Frenhinol, a Thlws y Western Mail am fod y Sir orau yng Nghymru yn rheolaidd.

Mae hi'n credu'n gryf mai trwy annog yr aelodau y byddant yn cael pob cyfle i ddatblygu'n well ffermwyr a gwell gwladwyr ac i fod yn ddinasyddion gwell.

Mae'r Mudiad yn ddyledus tu hwnt iddi am roi cant y cant bob amser er lles yr aelodaeth a'r Sir.

Yn ddiweddar fe dderbyniodd Eirios anrhydedd sef gwobr gan Undeb Amaethwyr Cymru ynghyd â Phwyllgor Sioe Laeth Cymru am ei chyfraniad amhrisiadwy i fydd amaeth a chefn gwlad yn Sir Gaerfyrddin.

*Eirios Thomas yn derbyn cwpan o law Llywydd Sioe Laeth Cymru, y milfeddyg Islwyn Thomas.*





## BETHLEHEM



### Cylch Ti a Fi

Cafodd Cylch Ti a Fi newydd sbon ei lawnsio ar 5 Hydref yn Hen Ysgol Bethlehem.

Mae'r Cylch ar agor o 1 o'r gloch tan 3 y prynhawn pob dydd Mawrth. Cost - £2 y plentyn. Gobeithio y daw plant bach o bell ac agos i'r cylch.



## CAIO



### Ysgol Gynradd Caio

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cystadlu yng nghystadlaethau cyfyngedig Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Buont yn canu, llefaru, arlunio a chreu gwaith llawysgrifen yn ogystal â chyd-ganu mewn parti canu. Diolch i chi am roi o'ch amser i gefnogi'r Eisteddfod ac am wneud mor dda.



*Y disgyblion gyda'u gwobrau*

Bu'r disgyblion hynaf yn ymweld â'r Bws Ceginio yn Ysgol Llangadog ar 9 Tachwedd lle buont yn creu dau gwrw iachus iawn. Roedd y gweithgaredd wedi cael ei ariannu gan y Cynulliad. Swper hyfryd a nosweth bant o goginio i'r Mamau!

Cafwyd diwrnod bythgofiadwy pan aethom gydag Ysgol Gynradd Llanwrda i weld perfformiad *The Snowman* yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Pleswyd pawb wrth weld y dawnsio a'r golygfeydd hyfryd a chlywed y gân eiconig *Walking in the air*. Roedd pawb yn hapus ac ar ysgafn droed wrth ffarfelio â'r brif ddinas. Defnyddiwyd arian a godwyd yn ystod Dathliadau Ysgol Caio i ariannu'r diwrnod. Defnydd arbennig o'r arian gan i'r plant fwynhau yn fawr.

Roedd pawb wedi rhoi dillad ysgol gadw ar 18 Tachwedd a gwisgo dillad nos a sliperi am y dydd er mwyn codi arian i *Blant mewn Angen*. Buom hefyd yn cerdded o gwmpas y pentref yn ein dillad nos! Paratowyd siocledi Pudsey a theisennau gan Mrs Christine Lewis. Diolch yn fawr iddi hi. Codwyd £127 ar ddiwedd y dydd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.



*Y disgyblion yn eu gwisgoedd*

Cafwyd diwrnod llawn iawn o weithgareddau amrywiol pan aethom i Ysgol Gynradd Llanwrda ar 19 Tachwedd. Trefnwyd ymweliad gan PC Helen Phillips, lle bu'n trafod ymddygiad da o fewn yr ysgol a sut rydym yn gweithredu hyn. Cafwyd gweithgaredd 'creu tŷ i tedi' wrth ddefnyddio offer technoleg yn ogystal â chreu adnodd codi glo heriol. Cwmni XL Wales oedd yn gyfrifol am gyflwyno hyn i'r plant. Hyfryd oedd gweld y disgyblion oll yn cymysgu a chyd-weithio'n dda.

Fe fydd Ffair Nadolig yn yr Ysgol ar 2 Rhagfyr o 6 tan 8pm. Bydd yno stondinau amrywiol yn gwerthu nwyddau Nadoligaidd, stondin gacennau yn ogystal â stondinau a drefnir gan y plant. Croeso cynnes i bawb.

Ar 14 Rhagfyr bydd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol yn cael ei gynnal yn yr eglwys am 7 o'r gloch. Bydd sieri a mins pei yn yr Ysgol i ddilyn.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Dave Ludlow, Arlwyn ar golli ei dad yn ddiweddar. Bu'r angladd ym Manceinion.

Estynnir cydymdeimlad ag Elinor a Lyn Richards a'r teulu, Maesglas. Yn syfrdan o sydyn hunodd brawd Lyn, sef **Dr. Eurfyl Richards** a fu'n feddyg teulu yng Nghaerwrangon.

## CIL-Y-CWM



### Côr Cyswllt Cil-y-cwm

Cynhelir 'Parsel Nadolig' yng nghwmni Côr Cyswllt Cil-y-cwm ar ddydd Sul, 19 Rhagfyr yng Nghapel Soar Tynewydd, Cil-y-cwm am 2.30pm. Pris mynediad yn £5 gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Y Llywydd fydd Rhian Williams, (Clynmawr gynt). Am ragor o wybodaeth cysylltwch â (01550) 720622.

## CRUGYBAR



### Aelod o'r côr newydd

Da clywed bod Deian Thomas, Caedderwen wedi ymuno â côr *Only Boys Aloud*. Mae'n siwr bydd yn brofiad hyfryd ac unigryw a disgwyliwn ymlaen am dy weld yn perfformio gyda nhw.

### Ysbyty

Da yw deall bod Eiddwen Lewis, Godregarth yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty. Dymunir iddi wellhad buan a llwyr.

## CWM-DU



### Y Clwb Llyfrau

Mae'r clwb llyfrau yn boblogaidd iawn a daw nifer dda i'r cyfarfod unwaith y mis ar nos Iau. Yn ddiweddar buon nhw'n darllen nofel *Twilight* ac edrych ar y ffilm ar ôl trafod y llyfrau a ddewiswyd yn ystod y mis.

### Calan Gaeaf

Paratodd Alan a Bella King gwis arbennig ar gyfer tymor Calan Gaeaf. Cynhaliwyd y cwis ar nos Sadwrn yn y dafarn. Diolch i bawb a'u cefnogodd ar y noson.

### Cymdeithas Hanes Talyllychau a Chwm-du

Mae Pat Edwards o Gymdeithas Hanes Talyllychau a Chwm-du yn y dafarn ar yr ail nos Fercher ymhob mis am 8 o'r gloch. Mae hyn yn rhoi cyfle i drigolion a ffrindiau ddod â dogfennau neu luniau i'w gosod ar yr archif. Cyn bo hir cynhelir y cyfarfod yn ystod y prynhawniau er hwylustod i bawb.

### Cystadleuaeth 'pies' - pasteiod

Mewn cyfarfod o Gymdeithas Cwm-du trafodwyd y posibilrwydd o werthu pasteiod - 'pies' yn y bar a chynhaliwyd cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr lleol gyda grŵp o bobl yn blasu'r pasteiod. Daethpwyd i benderfyniad a bydd y pasteiod ar werth cyn bo hir.



## CWRT Y CADNO



### Cymdeithas y Capel

Dechreuwyd gweithgareddau'r tymor ar nos Fercher 27 Hydref. Daeth Huw Davies, Llandre ar fyr rybudd i ddangos sleidiau ac hanes yn ymwneud â theithio i wahanol wledydd a oedd yn gysylltiedig ac astudiaeth 'Ysgoloriaeth Amaethyddiaeth Nuffield'. Gwelwyd golygfeydd a chafwyd hanes a gwybodaeth diddorol iawn.

Yna ar nos Fawrth, 9 Tachwedd aeth criw ohonom lawr i'r Bryn, Manordeilo, cartref Arwyn ac Eileen George. Gwelsom grefftau a gwaith coed Arwyn ac arlunio Eileen, gwaith arbennig iawn.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Fflur Davies, Llandre sydd wedi dyweddio gyda Chris Sheppard o Swydd Efrog.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Wendy Gardner, Bwlchygilwen a'r teulu ar farwolaeth ei thad.

## FFAIR-FACH



### Capel Tabernacl

Blin cofnodi colli **Mrs Ray Evans** Parc Cawdor ar ôl salwch hir. Rydym yn meddwl am Dr. Gwyn Evans a'r mab Alun yn eu colled. Roedd yr oedfa goffa ar 23 Tachwedd yn Amlogfa Llanelli dan ofal y Parchedig Iwan V. Evans.

Gyda thristwch rhaid cydymdeimlo gyda Joan Taylor a Doreen Rees ar golli ei chwaer a chwaer yng nghyfraith ym Machynlleth.

### Cymdeithas y Tabernacl

Ar nos Lun, 25 Hydref pleser oedd croesawu Arwyn Davies, Capel Tydist atom a chawsom noson ddifyr yn ei gwmni wrth iddo drafod ei daith ar hyd Clawdd Offa. Yna ar 8 Tachwedd buom yn olrhain hanes Ystad Cawdor gyda John Davies, Caerfyrddin. Yna ar 22 Tachwedd bu Harri Williams o'r Fforest gyda ni.

Nadolig Llawn - mae'r ŵyl yn agosau a gobeithio cawn fendith wrth baratoi ar gyfer eleni eto.

### Cylch Meithrin Ffair-fach



Plant sy'n mynychu'r prynhawn yn eu smotiau gyda Pudsey bach.

## FFARMERS



[www.ffarmers.org](http://www.ffarmers.org)

### Priodas aur

Hyfryd cael estyn ein cyfarchion i Gwynfor a Bethan Richards, Tegfryn ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Priodwyd hwy ym Methel, Cwm Pedol ar 19 Tachwedd, 1960 gyda'r diweddar Barchedig Llewelyn Roberts yn gwasanaethu. Gwnaethant eu cartref ym Mlaenmaes, Ffarmers cyn symud maes o law i Ynysau. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Tegfryn.

Mae David a Joan Morgan, Plasnewydd hefyd newydd ddathlu eu Priodas Aur. Salem, Heol Galed oedd lleoliad y seremoni ar 26 Tachwedd 1960, gyda'r diweddar Barchedig Rhys Harries yn gwasanaethu, ac maent wedi treulio holl flynyddoedd eu bywyd priodasol ym Mhlasnewydd. Dymuniadau gorau i'r ddau gwpl.

### Priodas

Ar 29 Hydref, priodwyd Rhodri Gomer Davies, mab Elfyn a Rowena Davies, Troed y bryn, Ffarmers a Carys Eleri Huws, merch y Dr Dafydd a Rhian Huws, Y Ffwrnes Blwm, Caerffili yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, gyda'r Parchedig Ddr R. Alun Evans yn gwasanaethu. Y gweision priodas oedd Rhys Mathew Davies a Benjamin Gartside Mathew (brawd a chefnider y priodfab); gydag Elen Clwyd Roberts a Gwenan



Mair Thomas (chwiorydd y briodasferch) ac Eleri Rhian Davies (chwaer y priodfab) yn forwynion. Y tywyswyr oedd Aled Gwilym Huws, Geraint Meilyr Huws ac Andrew Houston. Megan Alys Thomas ac Awen Mair Thomas oedd y morynion bach, ac Ifan Emrys Davies yn was bach. Cafwyd darlleniadau gan Geraint Huws a Daniel Davies ynghyd â datganiad cerddorol gan Barti Merched Capel Bethlehem. Yr organyddes oedd Delyth Evans. Cynhaliwyd y wled briedasol yng Ngwesty'r Fro, Parc Hensol, Bro Morgannwg. Mae Rhodri a Carys yn byw yng Nghaerdydd. Mae Carys yn athrawes yn Ysgol y Wern a Rhodri yn chwarae rygbi gyda Dreigiau Casnewydd Gwent. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Hywel a Rhiannon, Llwynberllan ar enedigaeth mab bach – Gruffudd Hywel – brawd bach i Elan a Mari. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

### Marchnad Ffermwyr a Chrefftau

Cynhaliwyd y farchnad fisol yn y Neuadd ar 6 Tachwedd. Cynhelir yr un nesaf ar 4 Rhagfyr rhwng 10am ac 1pm. Cofiwch alw i mewn i weld yr amrywiaeth o gynnyrch a chrefftau sydd ar gael, a manteisio ar y cyfle i brynu anrhegion Nadolig.

### Llysgenhades Ieuenctid

Llongyfarchiadau i Carwen Richards, Cwmcelyn ar gael ei dewis yn Llysgenhades Chwaraeon Ieuenctid Sir Geredigion. Mae Carwen yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Ffarmers, a bellach yn astudio ar gyfer ei harholiadau Lefel A yn Ysgol Gyfun Llanbed. Mae hefyd yn chwaraewraig rygbi frwd gyda Chlybiau Rygbi Merched Quins Caerfyrddin a Sgarlets Llanelli. Da iawn ti, a phob hwyl gyda dy ddyletswyddau fel Llysgenhades.

### Siarad cyhoeddus

Daeth tîm Siarad Cyhoeddus Saesneg Adran Iau Clwb Dyffryn Cothi yn ail yng nghystadleuaeth y Sir yn ddiweddar, gyda'r tri aelod o'r tîm yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Ffarmers, sef Kirsty Jones, Sulwen Richards a Jaxom Follon. Da iawn chi.

### Yoga

Oes gennych ddiddordeb mewn adnewyddu eich hun yn fewnol? Yna 'Yoga' amdani! Mae dosbarthiadau Yoga yn Neuadd Bro Fana bob nos Iau ar gyfer y profiadol a'r rhai sy'n cychwyn. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Andrew ar 07881455644, neu trwy e-bost ar [Yoga@selfaware.com](mailto:Yoga@selfaware.com)



## Neuadd Bro Fana

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Ben Bouvet o'r Drovers ar nos Lun, 8 Tachwedd, wrth iddo roi arddangosiad goginio. Cyfle i weld a blasu amrywiaeth o rysâtiau – a'r cyfan yn edrych mor rhwydd.

Ar nos Sul, 14 Tachwedd, cynhaliwyd Cyngerdd yn y Neuadd gan Gerddorfa Siambr Llanbed dan arweiniad David John. Cafwyd perfformiadau safonol o gerddoriaeth glasurol - Concerto Brandenburg Rhif 4 Bach; Concerto Clarinet Mozart gydag Anne Startup yn unawdydd; a Symffoni Rhif 1 Beethoven. Da oedd gweld nifer o wynebau ifanc o'r ardal ymysg y gerddorfa yn cael y profiad o berfformio gyda cherddorion mwy profiadol.

Fel arfer, bydd yr Eglwys a Chapeli'r gymdogaeth yn dod at ei gilydd gyda'r Neuadd i gynnal y Gyngerdd a Noson o Garolau flynyddol ar nos Sul, 19 Rhagfyr yng nghwmni Côr Meibion Cwm-ann a'r Cylch. Bydd elw'r noson eleni yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru – gwasanaeth holl bwysig i drigolion cefn gwlad.

Mae Neuadd Bro Fana wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn cymorth ariannol o dan y cynllun *Cymunedau Di Garbon* i osod paneli photovoltaic ar do y Neuadd i greu trydan. Mae'r cymorth ariannol oddi wrth Asiantaeth Ynni Sir Gâr yn £15,000, ac mae'r cytundeb wedi ei roi i Gwmni Thermal Earth o Gapel Hendre. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

## LLANARTHNE



### Graddio

Llongyfarchiadau i Siân Davies, Fferm Bremenda Uchaf sydd wedi graddio gyda MSc mewn Seicoleg Iechyd o Brifysgol UWIC Caerdydd.



### Priodasau

Priodwyd Delyth Jones, Maes yr Awel, Llanarthne a Geraint Davies, Gorslas yn Eglwys Llanarthne. Bu'r wledd briodasol yn Nhafarn Yr Aradr, Rhosmaen. Mae'r ddau yn byw bellach yng Ngorslas. Mae Geraint yn Brif Athro Ysgol Gynradd Gymraeg Rhydaman a Delyth yn gweithio gyda Heddlu

Dyfed Powys.

Priodwyd Alice Bound, Tri Cornel, Llanarthne a Rhodri Thomas, Rhydaman yn Eglwys Llanarthne gyda'r neithior yn Y Ffigysbren, Llanarthne. Mae'r ddau bellach yn byw yng Nghapel Hendre gyda Rhodri yn gweithio fel saer coed gyda TRJ, Betws ac Alice yn gweithio gyda NFU Caerfyrddin. Pob dymuniad da i'r ddau bâr.



## LLANDEILO



### Merched y Wawr Cangen Llandeilo

Ar 16 Medi, noson gyntaf tymor y gaeaf 2010 croesawyd ni'n gynnes gan Morfydd James ein Llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau ac aethom ymlaen i drafod busnes y Mudiad. Aeth Morfydd ymlaen i estyn croeso i'n gwestai sef Mrs Jill Jones, gwraig y Parch. Gareth Morgan Jones o Bontardawe, brodor o Gorslas a gafodd ei haddysg yn Ysgol Ramadeg Llandeilo. Aeth i'r coleg cyn dilyn gyrfa fel athrawes yn ardal Trebannws. Ei diddordeb pennaf erbyn hyn yw cwiltio a daeth ag enghreifftiau o'i gwaith manwl a chrefftus i ddangos i ni. Roedd yna amrywiaeth o liwiau a phatrymau gwyach ac eglurodd hanesion a chefnid pob cwilt. Aeth â ni ar deithiau i siopau defnyddiau o Bontardawe i Philadelphia. Soniodd am y pleser a gafodd wrth wneud 'Murlun Mawr' lliwgar sy'n darlunio golygfeydd o gyfandir Affrica a werthwyd i godi arian at 'Apêl De Affrica'. Mae'r murlun i'w weld yn Nhŷ John Penri yn Abertawe. Codwyd dros £1,000 at yr achos. Cafwyd noson arbennig yn ei chwmni. Diolchodd Undeg yn wresog iddi ar ein rhan. Gorffennwyd y noson drwy gymdeithasu dros baned a chanu Cân y Mudiad i gloi.

Ar 21 Hydref aethom ar ymweliad â'r Ganolfan Dreftadaeth yn Llanymddyfri yng nghwmni Dai Gealy. Cawsom hanes y Normaniaid a'r Rhufeiniaid a adeiladodd gestyll yn ardaloedd Llanymddyfri a Dinefwr. Ger Castell Llanymddyfri gwelir cofeb i Llywelyn ap Gruffydd Fychan a ddiennyddiwyd yn 1401 am ei ran yn gwarchod bywyd Owain Glyndwr rhag byddin Brenin Lloegr. Soniwyd am nifer o enwogion yn hanes Cymru oedd wedi troedio'r wlad yn ardal Llanymddyfri a'r cyffiniau – hanes Ladi Wen Llyn y Fan, Meddygon Myddfai, Twm Siôn Cati, William Williams Pantycelyn a'r Ficer Pritchard. Daeth pwysigrwydd ein milltir sgwâr yn hanes ein cenedl yn amlwg i ni. Aethom ymlaen i drafod busnes y Mudiad a chymdeithasu dros swper yng ngwesty'r Kings Head cyn dychwelyd adref wedi dysgu llawer am hanes Cymru.

### Noson Garioci Adran yr Urdd Llandeilo

Ar nos Wener, 22 Tachwedd cynhaliwyd noson o garioci nodedig Adran yr Urdd yng Nghae William. Y bwriad oedd codi arian tuag at elusen Tŷ Hafan ac at yr Adran a'r uwch adran. Daeth Owain a'i ddisgo atom gyda digon o ddewis o ganeuon i'w canu. Rhyw ugain o blant ddaeth i gefnogi, rhif siomedig i noson oedd yn codi arian at achosion mor dda. Ond roedd y criw bach ymunodd â ni yn gantorian o fri. Seren y noson oedd Rhydian Thomas – fe ganodd fel eos. Rwy'n siwr y bydd Bois y Castell yn ei fachu cyn hir i ymuno â nhw!! Braf iawn oedd gweld pobl ifanc a arferai fynychu'r Adran (ond sydd bellach mewn ysgolion Uwchradd) yn ymuno â ni. Ychwanegodd eu presenoldeb lawer i'r noson. Perfformiodd Mabon Samuel yn wych hefyd wrth ganu a dawnio yn frwdfrydig. Diolch o galon i bawb a'n cefnogodd. Y bwriad yw i ymuno eto ym mis Rhagfyr er mwyn codi mwy o arian drwy ganu carolau. Rhaid codi swm teilwng tuag at achosion mor arbennig.

Y nos Wener yma oedd fy noson olaf i fel un o arweinyddion Adran Llandeilo. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y ddeng mlynedd. Rwy wedi cael tomen o hwyl!

Ar hyn o bryd does 'na neb i gynorthwyo Lilian yn gyson bob nos Wener felly mae'r Adran yn gorffen am y tro. Gobeithio y daw rhywrai i'r adwy fis Ionawr i ail gydio yn yr awenau fel y bydd Adran yr Urdd Llandeilo yn parhau i lewyrchu

**Iona Llŷr**



## Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r cylch

Cynhaliwyd ail gyfarfod Clwb Cinio Llandeilo dan gadeiryddiaeth medrus Emyr James yn Yr Hydd Gwyn.

Yn dilyn pryd o fwyd blasus iawn fe wnaeth y cadeirydd

gyflwyno ffon gerdded i Dafydd Jones yn dilyn ei ymddeoliad o fod yn ysgrifennydd ers chwech mlynedd. Diolchodd Dafydd gan ddweud ei bod yn fraint cael



*Dai Bowen, Emyr James, Dafydd Jones*

cefnogi'r clwb ac yn anrhydedd cael cydweithio gyda nifer o swyddogion da.

Y siaradwr gwadd oedd Tim Hayes o Rydaman, wyneb cyfarwydd fel dyfarnwr ar y maes rygbi. Cardi yw Tim Hayes, a gafodd ei addysg yn lleol a graddio yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth ac ar hyn o bryd mae'n athro bywydeg yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin ond ar flwyddyn sabothol. Roedd e'n chwaraewr rygbi addawol cyn iddo gael anaf difrifol ar y cae a bu'n rhaid iddo roi'r gorau i chwarae a troi at ddyfarnu. Dechreuodd fel dyfarnwr yn 1990 ac fe aeth ymlaen i rannu nifer o'i brofiadau ac adrodd nifer o storïau difyr iawn. Aeth Tim ymlaen i ofyn y cwestiwn holl bwysig, beth sy'n gwneud dyfarnwr da? Y peth pwysig bob amser yw ceisio gadael y gêm i lifo. Wrth gwrs mae'n rhaid cosbi pan mae'n rhaid ac mae'n rhaid i'r dyfarnwr wneud pethau'n glir, taw ef sydd yn rheoli ac yn barod i ddelio â chwaraewyr sydd yn troseddu yn gyson. Mae'n rhaid bod yn deg bob amser ac roedd bob amser yn ddiolchgar i'w gyd swyddogion yn rhedeg y linell ar T.M.O.

Diolchwyd yn gynnes i Tim gan Iwan Williams ac fe gyflwynwyd rhodd iddo fel arwydd o werthfawrogiad.



*Iwan Williams, Tim Hayes, Emyr James*

Dymunir gwellhad llwyr i aelod hynaf y clwb sef Dei Jones, Tirllan, Derwen Fawr sydd wedi derbyn llawdriniaeth i'w glun.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo

Llongyfarchiadau i Arwel Jones am gael ei ddewis i fod yn eilydd i dîm siarad cyhoeddus Saesneg. Da iawn hefyd i weddill y tîm sef Emyr, Steffan, Elin ac Anwen. Hefyd i'r tîm darllen sef Nia, Siriol a Menna.



*Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo yn derbyn sic o'ddi wrth Owen Richards - cyfraniad noson lawen yn Langwm.*



*Eifion Davies ac Owen Richards yn cyflwyno sic i Dafydd Davies ar ran Clwb Ieuencid Rygbi Llandeilo.*

## Cyngerdd Blynyddol Côr Meibion Dinefwr

Croesawyd tyrfa dda o wrandawyr gwerthfawrogol i Gyngerdd Blynyddol Côr Meibion Dinefwr a gynhaliwyd yng Nghapel Newydd ar nos Sadwrn, 30 Hydref, o dan arweinyddiaeth John Williams gyda Ben Montague yn cyfeilio ar y piano. Eleni unodd Côrau Meibion Llandybie a Dyffryn Aman gyda'u harweinyddion Alun Bowen ac Ian Llewelyn â Chôr Dinefwr. Cafwyd datganiadau cerddorol swynol, hudolus a chanmoladwy gan yr artistiaid gwadd sef - Eirlys Myfanwy Davies (soprano), Eirian Davies (baritôn) a Dorothy Singh (cyfeilyddes).

Cadeirydd y gyngerdd oedd Philip George o Dalyllychau a chafwyd araith fer a phwrpasol ganddo ynghyd â chyfraniad teilwng at gronfa'r côr. Cyflwynwyd John Walford gan



D Wyn Williams, Cadeirydd y Côr cyn i'r cyn-lywydd yn ei dro gyflwyno sic am £1,000 i gynrychiolydd o Uned y Galon yn Ysbyty Treforys.

Dymuna'r côr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u presenoldeb ar noson y gyngerdd ac yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ac estynnir croeso cynnes i bawb unwaith eto i ymuno â ni yn ein Cyngerdd Blynyddol nesaf a gynhelir ar nos Sadwrn, 29 Hydref 2011.

Estynnir croeso i aelodau newydd i ymuno â'r côr sy'n ymarfer yn wythnosol ar nos Lun yn festri Capel Newydd am 7.30pm gan fod angen cantorion ychwanegol arnom ym mhob adran o'r côr.

## Cyflwyno sic

Dafydd ac Eluned Jones, Maesycod yn cyflwyno sic o £950 i Mr Holt o Uned Gofaly Fron, Ysbyty Tywysog Phillip. Llanelli. Swm a gasglwyd yn lle anrhegion ar achlysur pen-blwydd Dafydd



yn 80 mlwydd oed. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd.



## LLANDYFAN



### Colli Dennis Jones

Daeth cwmwl dros yr ardal wrth glywed y newydd trist am ddarod sydyn **Dennis Jones**, y Rock gynt ar 15 Hydref ac yntau'n 78 oed. Roedd yn gymeriad annwyl a thwymgalon, wastad yn haelionus tu hwnt ac yn barod ei gymwynas. Ffrind i bawb a halen y ddaear gyda hiwmor iach â gwen gynnes ar ei wyneb bob amser. Gwelir ei golli yn fawr yn yr ardal yma, ond diolchir bod gan y gymdogaeth lu o atgofion melys ohono.

Cafodd angladd barchus iawn yng Nghapel Soar lle'r oedd yn aelod ffyddlon a thra gweithgar. Roedd y dyrfa fawr a ddaeth ynghyd, mwy na allai'r capel ddal, yn arwydd clir o feddwl uchel pawb amdano. Talwyd teyrnged hyfryd a diffuant dros ben iddo gan ei weinidog y Parch. Heini Jones mewn oedfa hyfryd o ddiolchgarwch am ei fywyd.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Eira, Hilda a Vernon a'r teulu oll.

### Capel Soar

Cafwyd Oedfa Ddiolchgarwch hyfryd dros ben gyda'r Parch Mary Davies, cylch Llandeilo yn gwasanaethu.

Mae'r Astudiaeth Feiblaidd wedi ail-gychwyn am y gaeaf. Bydd yr astudiaeth nesaf yn Ffestri Soar ar nos Fercher 1 Rhagfyr am 7 o'r gloch gyda'r Parch Heini Jones wrth y llyw. Maent yn nosweithiau diddorol a difyr dros ben, a'r gymdeithas yn diddanu. Beth am ddod? Estynnwn groeso cynnes i bawb.

Dyma drefn oedfaon mis Rhagfyr:

5 - Oedfa am 2 o'r gloch gyda'r Parch Heini Jones.

12 - Cymundeb am 2 o'r gloch gyda'r Parch Heini Jones.

19 - Cwrdd Nadolig y Palnt am 2 o'r gloch gyda ymweliad gan Siôn Corn a the i ddilyn.

24 - Ymuno â Chapel Carmel ar gyfer Oedfa Noswyl y Nadolig am 6pm.

Estynnir croeso cynnes i bawb bob amser a diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Cydymdeimlir â Pat Llewelyn a'r teulu (Yr Hendy) wedi i Pat golli ei mam yn ddiweddar.

## LLANFRIDWEN



### Cydymdeimlad

Drwg gennym gofnodi marwolaeth y gŵr **Mr William Thomas**, neu Wili Bach fel y câi ei adnabod gan bawb. Daeth i amlygrwydd rai blynnyddoedd yn ôl pan stwffiodd ddeunaw ffured i lawr ei drowsus. Mae'n gadael gweddwr: Constance Thomas, ond dim plant.

### Y Gymdeithas Lenyddol

Yn ei chyfarfod misol yn y Fridwen Arms nos Fawrth, 16 Tachwedd, clywodd yr aelodau newyddion syfrdanol gan y siaradwr gwadd, Dr Miriam Moses, o Sefydliad Ymchwil Tanforol Cymru. Dywedodd fod ei chydweithwyr wedi darganfod dinas goll o dan y môr rhwng Cymru ac Iwerddon. Ar hyn o bryd, roedd hen lawysgrifau Cymraeg ar femrwn a godwyd oddi ar wely'r môr yn cael eu sychu'n ofalus cyn cael eu trosglwyddo i ysgolheigion.

### Afal rhinweddol

Mae arbenigwyr meddygol o sawl gwlad yn dangos diddordeb mewn coeden afalau unigryw, Blew'r Cythraul, sydd ym mherllan Ifan Puw Rees, Troedfannog. Trwy fwyta'r afalau yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae Mr Rees a oedd wedi colli'r rhan fwyaf o'i wallt, erbyn hyn yn gorfod ymweld â'r barbwyr ddwywaith y mis.

### Nadolig Llawn

Dyna yw dymuniad y ficer, y Parchedig Melbourne Thomas i'w holl blwyfolion a darllenwyr *Y Lloffwr*. Mae'n ymddiheuro na fydd ar gael i gynnal y gwasanaethau arferol yn ystod y Nadolig; er lles ei ieuchyd, mae'n gorfod treulio ychydig wythnosau yn heulwen Sbaen.

## LLANGADOG



### Marwolaeth

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth un o feibion y fro sef **Ben (Benjie) Barr** gynt o 1 Stryd Fawr, Llangadog yn 67 oed.

Fe'i anwyd ym Mwlchagored ar Gomin Llangadog yn fab i'r diweddar Jim a Mary Barr.

Bu Benjie yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llangadog ac yna Ysgol Ramadeg Llanymddyfri cyn iddo ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Peirianeg Sifil ym Mhrifysgol Caerdydd yn 1964 a chael Doethuriaeth yn 1968.

Ers ei ddyddiau coleg, ymgartrefodd Benjie a'i deulu yng Nghaerdydd lle bu'n ddarlithydd ac yn bennaeth adran yng Ngholeg y Brifysgol am nifer o flynyddoedd.

Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd yng nghapel Minny Street, Caerdydd, ar ddydd Iau, 7 Hydref a gwerthfawrogydd gan y teulu bresenoldeb nifer o'i ffrindiau o ardal Llangadog.

Estynnir cydymdeimlad i'w briod Sarah, y plant Sybil a James a'r wyrion Oliver, Gwen, Sam, Megan a Daisy.

## LLANYMDDYFRI



### Cwrdd Diolchgarwch y plant

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Plant yr ofalaeth yng Nghapel y Groes, Cil-y-Cwm. Arweiniwyd ni mewn gweddi, cân a gweithgaredd gan y plant oedd yn amlwg wrth eu bodd. Roedd y plant wedi penderfynu prynu anrhegion drwy gynnllun y Cymorth Cristnogol felly cyfrannwyd at brynu 16 hwyaden Bangladesh am £25, diadell o eifr am £60 a phum rhwyd mosgito am £15. Diolch i bawb a fu mor garedig wrth gefnogi'r plant a'u hachos. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi'r plant a'r bobl ifanc ac am wasanaeth ardderchog.



Cynhaliwyd Cyngerdd Rydym i gyd yn edrych ymlaen at y cyngerdd Nadoligaidd yng nghwmni y Tri Tenor ac artistiaid lleol sef Carys Rees, Delyth ac Eleri Jones, Angharad Watkins a Lowri Pugh-Morgan. Dewch yn llw i ddathlu gŵyl y Nadolig gyda ni yng Nghapel Salem ar nos Sul, 5 Rhagfyr.

### Cyngerdd

Rydym i gyd yn edrych ymlaen at y cyngerdd Nadoligaidd yng nghwmni y Tri Tenor ac artistiaid lleol sef Carys Rees, Delyth ac Eleri Jones, Angharad Watkins a Lowri Pugh-Morgan. Dewch yn llw i ddathlu gŵyl y Nadolig gyda ni yng Nghapel Salem ar nos Sul, 5 Rhagfyr.

### Merched y Wawr Bro Pantycelyn

Cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen yn Neuadd Dolau Bran ar nos Fercher, 10 Tachwedd gyda'r Llywydd Enid Protheroe yn y gadair. Ar ôl canu can y mudiad cawsom gyfarfod busnes. Braf oedd gweld mwyafrif yr aelodau yn bresennol. Yn anffodus, oherwydd anhap, nid oedd y gŵr gwadd o'r Frigad Dân yn medru bod yn bresennol.

Felly, yn lle siaradwr gwadd, cawsom noson o *Frethyn Cartre* sef cwis bach llwyddianus iawn y daeth Eleri o hyd iddo. Cawsom lawer o sbri wrth geisio dyfalu'r atebion a 'roedd yn noson hwylus dros ben. Tros 'baned buom yn trefnu ein cyfarfod nesa-*Dathlu'r Nadolig*. Edrychwn ymlaen i groesawu Cangen Y Bannau o Aberhonddu i ddathlu'r ŵyl gyda ni. Am fod mis Rhagfyr yn brysur dros ben bydd ein cyfarfod nesa wythnos ynghynt na'r arfer, felly, noder mai'r dyddiad i'w gofio yw Nos Fercher, 1 Rhagfyr yn Neuadd Dolau Bran. Gobeithio bydd pawb yn medru dod erbyn 6.15pm er mwyn helpu paratoi'r lle. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Enid P ar (01550) 720557 neu Eleri ar (01550) 720253.

**Clwb Gwawr**

Bu Clwb Gwawr Llanymddyfri a rhai ffrindiau yn mwynhau diwrnod o hyfforddiant ar chwarae golff yng Nghlwb Golff Garnant yn ddiweddar. Cawsant eu hyfforddi gan Matthew Hollis gyda help llaw y cadeirydd Mary Davies a Brenda Davies. Diwrnod i'r brenin!



Buom i gyd i lawr yn y Clwb Rygbi yn Dawnsio Llinell. Diolch i Annette Davies ac i Eirlys Jones am geisio dangos y ffordd a'n helpu ni gofio yr holl symudiadau. Mae'n ddull ardderchog o ymarfer y corff a'r meddwl ac fe gawsom i gyd hwyl. Ymlaen wedyn i'r Gloch Las am swper ac i roi yr holl galoriau yr oeddem wedi eu llosgi yn ôl!

**Siarad Cyhoeddus**

Eto eleni bu tîm siarad cyhoeddus Ysgol Uwchradd Pantycelyn yn ymgiprys yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Clybiau Rotari De Cymru. Ar ôl y rownd gyn derfynol mae'r tîm wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Y tîm eleni yw Cadeirydd -Ffion Davies, Siaradwyr - Lowri Rees ac Endaf Griffiths ac fe gipiodd Lowri y wobwr am y siaradwr gorau o blaid y testun, sef, *Cred y tŷ hwn mai gwell chwyldro'r chwedegau na'r dimdegau.*

**North yn serennu**

Sgoriodd George North ddau gais i sicrhau prynhawn bythgofiadwy i'r llanc deunaw oed o Ynys Môn a chyn fyfyrwr yng Ngholeg Llanymddyfri ar ei ymddangosiad cyntaf dros ei wlad, wrth i Gymru unwaith eto ddod yn boenus o agos i ddymchwel un o gewri hemisffer y de sef tîm De Affrica. Dymunir yn dda iddo i'r dyfodol a gobeithio y daw nôl yn aml i Lanymddyfri.

**MILO****Colli Donald Jones**

Yn dilyn cystudd hir a blin bu farw **Mr Donald Jones**, Nant yr Allt, Milo ar 10 Tachwedd ac yntau'n 87 mlwydd oed. Yn enedigol o Bancygwin ym mhlwyf Llansadwrn fe symudodd gyda'r teulu i Fferm Pantglas ger Gelli Aur. Yn dilyn ei briodas ac Enid Davies yn 1950 bu'n amaethu Fferm Cilyrychen ger Llandybie am hanner can mlynedd. Adwaenid e fel cymeriad bro yn llawn hwyl a chonsyrn dros y gymdeithas amaethyddol. Yn gwmniwr da roedd e wrth ei fodd ym Mart Ffair-fach neu gyda Pwyllgor Sioe Llandeilo.

Daeth tyrfaf grefi'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Gosen, Llandybie cyn rhoi ei weddillion i orffwys ym mynwent Eglwys y Plwyf. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'i weddw Enid, Wendy a Siân y merched; Wyn ac Alun y meibion yng nghyfraith a gyda'r wyrion a'r wyresau Elen, Rhys, Sioned a Jamie.

**MYDDFAI****Dr. Eurfyl Richards**

Gyda thristwch cofnodir marwolaeth disymwyth **Dr. Eurfyl Richards**. Er i Eurfyl dreulio blynyddoedd fel meddyg teulu yng Nghaerwrangon daliodd gystylltiad agos â'i ardal enedigol, ac ôl ei ymddeoliad treuliodd Eurfyl a'i deulu gryn dipyn o amser yn yr hen gartref, Y Llythyrdy.

Wedi gwasanaeth angladdol ger ei gartref cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa yng Nghapel Seion, Myddfai ar ddydd Sadwrn, 6 Tachwedd. Bu'r gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog y Parch Gerwyn Jones yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Jill Hayley Harries a Meirion Sewell. Cyflwynodd y tri mab David, Robert a Rhodri atgofion, darlenniadau a barddoniaeth a greodd ddarlun llawn o fywyd a diddordebau Eurfyl. Claddwyd y llwch ym mynwent Seion. Cydymdeimlir gyda'r teulu cyfan.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Ar nos Iau 28 Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yng nghapel Bwlchryhiw pryd y pregethwyd gan y Parchedig Dr. R. Alun Evans, Caerdydd. Llywyddwyd y gwasanaeth gan y Parchedig T Gerwyn Jones.

Ar ddydd Sul, 7 Tachwedd yn eglwys y plwyf croesawodd y ficer, y Parchedig Ian Aveson, yr efengylwr enwog y Parchedig Richard Bewes, i bregethu. Hefyd yn bresennol yn y gwasanaeth oedd Charles Tywysog Cymru.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir gyda theulu'r diweddar **Mrs Sally Richards**, Dolwerdd a fu farw'n 97 oed yn dilyn cystudd hir.

**Cyfarchion**

Llongyfarchiadau i Arwel a Rachel, Cwmclyd ar enedigaeth eu merch Ella, chwaer i Gwen. Gwellhad buan i Glyn Morgan, Clydfan, Llanymddyfri (tadcu Gwen ac Ella) sydd newydd dreulio cyfnod mewn ysbyty.

**Neuadd y Pentre**

Da yw gweld bod y gwaith o adeiladu'r neuadd newydd yn mynd yn ei flaen yn hwylus. Mae'r BBC yn ffilmio'r cyfan gan sicrhau y bydd y datblygiad ar gof a chadw.





## Dyweddiad

Llongyfarchiadau gwresog i William Windsor, mab hynaf Tywysog Charles, Llwynwermwd a'r diweddar Dywysoges Diana ar ei ddyweddian â Kate Middleton.

## NANTGAREDIG



### Colli Emrys Lewis

Yn dilyn cyfnod o waeledd iechyd bu farw **Mr Emrys Lewis**, Dôl Hyfryd, Heol yr Orsaf, Nantgaredig ar 31 Hydref ac yntau'n 81 mlwydd oed. Priod ffyddlon ydoedd i Wendy a thad tyner Eirwen a'i gŵr Myrddin, tad-cu hoffus Dylan, Aled, Carwyn a Dewi, a brawd a thad-ying-nghyfraith parchus. Adwaenid e fel un o wir gymeriadau bro cefn gwlad – cyfaill i bawb a gwerinwr poblogaidd. Yn enedigol o Drawsmawr bu'n ffermio yn Eisteddfa, Nantgaredig cyn ymddeol. Bu'n hynod ffyddlon a gweithgar yn y gymuned drwy gydol ei oes, yn Eglwys Llanegwad; Sioe Amaethyddol Pontargothi, Cyngor Cymdeithas Llanegwad, Cangen Pontargothi a'r cylch o'r Henoed ynghyd â'r Blaidd Ryddfrydol Ddemocrataidd.



Daeth tyrfa enfawr i'r angladd gyhoeddus ar 8 Tachwedd yn Eglwys Llanegwad ac yna i'r fynwent gyfagos. Gwasanaethwyd gan y ficer y Parch. Rhobert J. Pattinson.

Cydymdeimlir â'r teulu cyfan yn eu colled.

*Hedd, perffai hedd.*

### Cleifion

Dros yr wythnosau diwethaf mae nifer fawr o bobl hŷn y cylch wedi bod yn wael eu hiechyd. Cofir amdanynt oll ac yn arbennig y rhai sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty; Tom Evans, Maes-y-coed, Cyril Jones, Fferm Penbryn, Ernie Jones, Danyrallt, Rhagfyr Jones, Heol y Deri, Dilwyn Williams, Y Goedlan a Maggie Davies, Llandysul (Colomendy, Nantgaredig gynt).

## PONTARGOTHI



### C.Ff.I. Dyffryn Tywi

Mae'r Clwb wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf. Fe wnaeth y clwb gyflwyno cyfanswm o £1260 a godwyd yn ystod 2009/2010 wrth ganu carolau Nadolig yn yr ardal leol ac yn ystod cwrdd diolchgarwch y clwb. Cyflwynwyd yr arian i Margaret Brooker a Sarah McDonnell o Ysbyty Glangwili, gyda'r arian yn gael ei wario'n benodol ar achosion o Cystic Fibrosis ac Epepsi.

Cafwyd Helfa Drysor hwylus. Llongyfarchiadau i deulu Alltyfyrddin ar ddod yn fuddugol a diolch i Tony a Carol Jones, Maesymeillion am drefnu'r noson.

Mae wedi bod yn gyfnod llwyddiannus hefyd, wedi i'r clwb ddod yn gydradd gyntaf yng nghystadleuaeth llyfr lloffion y sir. Llongyfarchiadau i un o aelodau'r clwb, Dylan Jones, ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd C.Ff.I. Cymru yn ystod y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn Wrecsam. Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd Dewi Jones a oedd yn aelod o dîm siarad cyhoeddus y sir a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth C.Ff.I. Cymru a Lloegr yn Stafford ac ar gael ei enwi y siaradwr gorau y gystadleuaeth.

Yn ogystal â hyn rydym wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Sir yn Neuadd San Pedr. Fe wnaeth tîm y clwb gyrraedd y chweched safle wedi'r holl gystadlu a daethpwyd yn gydradd drydydd yn adran y gwaith cartref. Dyma'r aelodau a ddaeth i'r tri safle cyntaf:

Unawd 16 neu iau: Ceirios Davies – 1af

Adroddiad Digri: Gwennan Davies – 1af

Unawd Alaw Werin: Ceirios Davies – 2il

Llefaru 16 neu iau: Gwennan Davies – 2il

Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm: Ceirios Davies – 2il

Parti Unsain - 2il

Cywaith Clwb - 3ydd

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch blynyddol y clwb eleni yn Eglwys Llanegwad gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Pregethwyd gan y Parch. Rhobert J. Pattinson. Casglwyd cyfanswm o £162 a fydd yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng elusennau dewisiedig y flwyddyn sef Autism a'r Clinical Decisions Unit yn Ysbyty Glangwili.

### Dathliad

Llongyfarchiadau gwresog a dymuniadau gorau am iechyd da i Sarah Ann Edwards, Fferm Llwynfortune, Llanegwad a ddathlodd ei phen-blwydd yn naw deg mlwydd oed ar 30 Hydref.

### Cyngerdd Mawreddog

Cynhelir cyngerdd mawreddog ar nos Sadwrn, 4 Rhagfyr yn Neuadd Pontargothi am 7 o'r gloch. Yr artistiaid fydd: Côr Seingar, Eirian Davies, Cwmifor (Bariton), a Phlant Ysgol Gynradd Nantgaredig gydag Evan Davies, Capel Dewi'n arwain. Llywyddion y noson fydd Hywel a Jeni Rees, Nantgaredig a'r gwsteion fydd Dr a Mrs Peter Thomas a Dr Heather Evans a Dr Anthony Davies. Mae'r elw yn mynd at Uned Strôc Ysbyty Llanelli a Meddygfa Tywi. Gellir cael tocynnau am £6 yr un ymlaen llaw drwy gysylltu ag Eirwen Williams ar (01267)290530 neu wrth y drws ar y noson.

## PUMSAINT



### C.Ff.I Dyffryn Cothi

Cynhaliwyd noson tân gwyllt lwyddiannus iawn eleni eto gan C.Ff.I. Dyffryn Cothi.

Bullawer o'r ardal yn mwynhau Cinio'r Cadeirydd, Owen Davies yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin. Noson hwyllog hyfryd ac uchafbwynt y noson yn ddiau oedd araith Owen. Llongyfarchiadau Owen ar flwyddyn o wasanaeth clodwiw i'r Mudiad.

Llongyfarchiadau gwresog i griw talentog a wnaeth ennill cystadleuaeth y sgets yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru ac i Gwenan Evans ar ennill cystadleuaeth cyfansoddi cerdd. Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n cystadlu yng ngystadleuaeth darllen a siarad cyhoeddus Saesneg y Sir. Da deall bod Aled Jones, Bethan Griffiths a Jaxom Follon wedi dod i'r brîg fel unigolion.

Cynhelir cinio Dathlu 60 yng Ngholeg Llanbed ar 4 Rhagfyr. Gellir archebu tocynnau gan David Astington neu Bethan Griffiths. Cofiwch hefyd am y Gyngerdd ar 1 Ionawr i gael mwynhau clywed doniau y cyn -aelodau a'r aelodau presennol. Archebwch docynnau i'r gyngerdd dathlu ymlaen llaw oddi wrth Owen Davies, Maesllanwrthwl (01558) 685247.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Katherine Davies, Ynysau Uchaf sydd wedi ennill gradd M.A. gyda rhagoriaeth. Mae Katherine yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Caio ac Ysgol Uwchradd Pantycelyn ac enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Saesneg o Brifysgol Caerdydd cyn astudio'n bellach ym Mhrifysgol Brighton.

### Merched y Wawr

Gwledd i'r llygad a gafwyd yn ein cyfarfod mis Tachwedd pan ddaeth Aeron Griffiths â chasgliad diddorol o'i pheintiadau i ddangos i ni. Cawsom glywed am y gwahanol dechnegau a deunyddiau a ddefnyddiwyd i greu'r campweithiau. Diolchodd y Llywydd, Eleri Davies i Ann Thomas ac Averina Jones am y lluniaeth.

**Neuadd y Coroniad**

Bu'r Ffair Hydref a gynhaliwyd yn y Neuadd yn llwyddiant. Agorwyd y Ffair gan Mr a Mrs Gwynfor Richards, Tegfryn a'n hatgoffodd am sut mae'r pentre wedi newid dros y blyneddau. Cliriwyd y byrddau mewn ychydig o dro a gwnaed elw sylweddol i goffrau'r Neuadd. Dymunwn ddiolch i'r Llywydd a phawb o ddefnyddwyr y Neuadd am eu cefnogaeth hael.

Estynnir gwahoddiad cynnes i holl drigolion yr ardal ymuno ni am noson gymdeithasol yn cynnwys lluniaeth ysgafn a datganiad ar y delyn gan Georgina Cornock-Evans ar nos Fercher, 29 Rhagfyr am 7pm. Bydd hefyd yn gyfle i weld yr offer newydd ar waith.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad diffuant ag Alan a Nerys Jones a'r teulu, Henllan yn dilyn marwolaeth sydyn mam Alan – **Mrs Megan Jones**, Troedyrhiw, Llanddewi Brefi.

**TALYLLYCHAU****Sul y Cadoediad - Eglwys Mihangel**

Ar fore Sul, 14 Tachwedd, Sul y Cadoediad cynhaliwyd oedfa ar y cyd rhwng eglwysi Talyllychau, Llansawel a Chaio yn Eglwys Sant Mihangel, Talyllychau. Cymerwyd y gwasanaeth gan Mr. Jeff Thomas ac am ddeng munud i unarddeg ymgasglodd y gynulleidfa y tu allan i'r eglwys o flaen y gofeb i'r bechgyn lleol a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Darllenwyd eu henwau, gosodwyd torchau wrth y gofeb a chafwyd dwy funud o dawelwch er cof amdanynt.

Cawsom oedfa hyfryd yn yr eglwys a darllenwyd y llithiau gan Roger Pike a Peter Mitchell. Yr organyddes oedd Gillian Thomas. Ar ôl yr oedfa gwahoddwyd y gynulleidfa i ysgoldy'r eglwys ar gyfer cwpanaid o goffi a bisgedi dan ofal Pat Edwards. Diolch i bawb yn yr eglwys am eu croeso.

**TRAP****Cyngerdd Mawr**

Bydd nifer o aelodau SyM Trap yn canu gyda Chôr SyM Sir Gâr yn y Cyngerdd Mawr sydd i'w chynnal yn Neuadd Pontyberem ar 3 Rhagfyr am 7.30pm. Ynghyd â doniau Sefydliad y Merched gan gynnwys aelodau SyM Bryn, Llanelli ac Anne Capel o gangen Llandeilo, bydd artistiaid enwog, sef Y Tri Tenor, Helen Gibbon, Côr Meibion Porth Tywyn, ac yn arwain bydd Brian Walters. Noson ddwyieithog yw hi. Tocynnau: £5. Os am docyn ffoniwch Pat neu Beryl (01558 823265/823213).

**Sefydliad y Merched**

Yn y Cyfarfod Blyneddol croesawyd Zena Jenkins o Bwyllgor Cynghori Aelodaeth SyM Sir Gâr ynghyd â Chris a Trish o SyM Sant Cynnwr. Etholwyd pwyllgor newydd gyda'r swyddogion canlynol: Llywydd Ann Saunders, Ysgrifennydd Anne White a Thrysorydd Enid Williams. Diochwyd i'r cynlywydd Cherie Williams am ei harweiniad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.



Yng Nghyfarfod Blyneddol y Sir a gynhaliwyd yn Neuadd Pontyberem, y siaradwyr gwadd oedd y darlledwr Roy Noble a Robert Lloyd, cyn-olygydd y Journal – y ddau yn ddifyr ac yn ddiddorol tu hwnt. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn i aelodau Trap wrth i ni dderbyn nifer o wobrau a thystysgrifau:

Tysytysgrif Recriwtio SyM Cymru (3ydd) i ganghennau â mwy na 30 o aelodau; Tarian Chwaraeon y Sir i'r gangen â'r pwyntiau uchaf a Tharian Bowlio (Dan dô ac awyr agored); Tarian Mabolgampwraig y Flwyddyn - enillydd Beryl Owen, ail Pat Thomas a thrydydd Anne White. Hefyd derbyniodd Pat Llewelyn ei Chymhwyster Beirniadu Cenedlaethol am Drefnu Blodau – camp ac anrhydedd arbennig.

Bydd yr aelodau'n mynd o amgylch y fro i ganu carolau ar nos Iau, 16 Rhagfyr er budd Ambiwlans Awyr Cymru.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mary Thomas (Llandeilo) sydd newydd dderbyn triniaeth llawfeddygol. Gobeithio cawn ei chwmni ni cyn bo hir eto.

**Colli Olwen Jones**

Gyda thristwch daeth y newydd am ddarod **Mrs Olwen Jones**, Llety'r Ynys (Fardre Fawr gynt) yn 80 mlwydd oed. Roedd yn wraig addfwyn a hoffus dros ben ac yn aelod ffyddlon yng Nghapel Maen, Gwynfe lle daeth tyrfa luosog i'w chynhebrwng. Talwyd teyrnged hyfryd dros ben iddi gan Y Parch. Kenneth Lintern. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i phriod Tom, eu meibion Eirian a Lyn a'u merched Siân Lilian a'u teuluoedd oll ar eu colled.

**Sioe**

Cafwyd noson tân gwyllt hwylus iawn ger y llyn yn Dauddwr yn ddiweddar. Diolch i bawb am bob cymorth.

Cynhaliwyd ein cinio blyneddol yn ddiweddar yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo gydag adloniant yn dilyn gan Yr Hanner Arall. Cyflwynwyd Bowl Coffa Randolph Chetwynd i'r wraig leol â'r mwyafr o bwyntiau yn yr adran goginio i Eleri Griffiths, Cysgod y Berllan. Enillydd Cwpan Tom Howell i'r arddangoswr lleol â'r mwyafr o bwyntiau yn adran y ceffylau eleni oedd Warwick Evans, Bumpers, ond fe gaiff hwn ei gyflwyno eto am nad oedd yn medru bod yn bresennol.

Hefyd, gwnaed cyflwyniad i Pat Thomas am ei gwasanaeth arbennig a chlodwiw iawn fel trysorydd y Sioe am 30 o flynyddoedd. Derbyniodd gamera yn rhodd oddi wrth y pwyllgor fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.



Ar nos Sadwrn, 4 Rhagfyr cynhelir ein Gyrfa Chwist flynyddol yn y Neuadd Ddinesig, Llandeilo am 7.30 o'r gloch gyda Llinos Davies yn galw.

Cynhelir noson chwaraeon gyntaf y gaeaf yn Neuadd Llandyfan ar nos Iau 2 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch. Bydd cyfarfod y sioe wythnos yn ddiweddarach ar nos Iau, 9 Rhagfyr am 8 o'r gloch yn nhafarn y Cennen.


**Coeden Nadolig y Pentref**

Bydd goleuadau'r goeden Nadolig yn cael eu cynnal ar nos Iau, 2 Rhagfyr am 6.15pm. Dewch i ganu carolau o amgylch y goeden ac i weld Siôn Corn.



## Dau gymeriad o Ddyffryn Cothi yn 90 oed

Bu 2010 yn flwyddyn arbennig iawn i ddau frawd yng nghyfraith a dreuliodd eu hoes yn Nyffryn Cothi yn cyfrannu'n sylweddol i holl weithgarwch cymdeithasol yr ardal. Mis Gorffennaf cyrhaeddodd Ieuan Williams, Abermangoed, Cwrt-y-cadno y ddegawd arbennig a chyn pen deufis roedd brawd ei ddiweddar bried Beatrice sef Dewi Jones, Gwargorof, Crugybar yn cyrraedd ei 90 oed.



Ieuan Williams

Ganwyd **John Ieuan Williams** yr ieuengaf o chwech o blant i Tomos a Jane Williams, yn Abermangoed. Yn 1939 prynodd a symudodd y teulu i fferm pum can erw erw Brynteg, Cwrt-y-cadno ond dychwelodd Ieuan wedi priodi i ffermio lle'i ganwyd ac yno mae'n dal i fwynhau amaethu. Wedi colli Beatrice yn 2005 mae'n cael cwmni cyson ei dri plentyn, Alun, Rhiannon a Dafydd sy'n byw yn yr ardal. Cerdded i ysgol Cwmcothi wnaeth Ieuan er bod car gan y teulu tua 1924 a'r brawd hynaf Tomi yn ei yrru. Cafwyd gwlychfa lawer tro ond roedd gan Miss Jane Williams, athrawes y babanod, sanau sych ar gyfer pob un o'r plant (tua 25 ohonynt). Er y medrai Mr J.T. Evans y prifathro siarad Cymraeg, Saesneg yn unig a ddefnyddiai o fewn muriau'r ysgol. Roedd hela'r cadno yn gêm boblogaidd iawn yng Nghwm Cothi amser cinio. Dewiswyd dau i fod yn gadno a gweddill y plant i'w dal wrth redeg drwy gaeau a choedwigoedd yr ardal. Cofia Ieuan am ddau gadno, a neidiodd i fewn i'r afon Cothi rhag cael eu dal! Diwrnodau pwysig yng nghalendar yr ysgol oedd dydd y mabolgampau a'r te yn Nolaucothi a dydd y gemau criced am darian Dolaucothi. Cofia ennill y darian yn ôl i Gwmcothi. Byddai gemau criced rhwng ysgolion Ffarmers, Llanycrwys a Chwmcothi yn cael

eu cynnal ar gaeau Bwlchgwynt tra byddai'n rhaid cerdded i Bumsaint i chwarae Crugybar a Chaio. Gadawyd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed. Aeth Ieuan adre i weithio a chan fod ganddynt yr unig dractor yn y cwm bu'n aredig i gymdogion. Am ddeugain mlynedd heb yr un ddamwain bu'n cario plant yn brydlon i ysgolion Cwmcothi a Chaio.

Tra gwahanol fu bywyd cynnar **Dewi Enoch Morgan Jones** a oedd yr ail o deulu o saith o blant Maggie a David Tom Jones o Gnwc y Llwyn, Brechfa. (Mae sôn am gysylltiad y teulu hwn a theulu D.J. Williams). Erbyn iddo gyrraedd ei saith oed roedd wedi colli ei rieni. Hunodd ei fam tra'r oedd y plentyn ieuengaf yn bwydo ar y fron. Rhannwyd y teulu a chafodd Dewi fynd i fyw at ei dadcu a'i famgu ym Mlaenddyffryn, Llanfynydd. Teithiai ryw dair milltir i Ysgol Clawdd Owen ar gefn poni a chael caniatad i'w gadael i bori mewn cae cyfagos. Roedd ysmegu'n cael ei wahardd yn ysgolion yr adeg hynny hefyd ac mae'n debyg bod rhywun wedi clapan wrth y prifathro bod gan Dewi focs matsys yn ei boced. Mynnodd y sgwyl yn gael y boc ac fe'i agorodd. Hedfanodd cachgu bwm allan. Clatsien galed fu'r gosb! Gadael yr ysgol a mynd i wasanaethu ar ffermydd yn yr ardal hon wnaeth Dewi am bedwar swllt ar ddeg y flwyddyn. Profiad chwerw a ddaeth i'w ran yr adeg honno oedd marwolaeth ei feistr yn Ynysau a'r atgofion am orfod cario'r corff i lawr o'r llofft. Daeth atgofion am fuwch ar fore tywyll yn neidio dros ben car ac am farchnata yn yr ardal. Dewi yn cofio mynd a wyau a menynt i farchnad Llandeilo tra cofia Ieuan y cariwr yn casglu'r wyau a menynt o'r fferm, a marchnad anifeiliaid yn cael ei chynnal gan Williams Borthyn ym Mhumsaint a Bridgend bob yn ail wythnos. Mewn cyfnod anodd a gwerth anifail yn isel iawn, cofia am ffermwr o Gwrtcadno yn cerdded ei ddefaid i Bumsaint, methu gwerthu'r un tan gwerthwyd un ar y ffordd yn ôl i ddynion yn gweithio ar yr heol. Dyma'r adeg roedd gwerthu wyn i "dealer" ar y fferm a'r ysgwyd llaw yn addewid byddai'n talu amdanynt wedi iddo eu gwerthu ymlaen. Diwrnod cneifio Troedrhiwcymwr oedd un o ddiwrnodau mawr y flwyddyn a Ieuan yn un o'r chwech neu saith o fechgyn yr ardal a gai swllt ychwanegol am fynd ar eu beic yno yn hytrach na dal y bws a deithiai o Bumsaint. Roedd yr ieuainc yn cael dysgu cneifio ymhlith y 50-60 o gneifwyr profiadol. Diwrnod cneifio ychydig yn llai gafwyd yn Nantyrast. Roedd y siec wlan y dyddiau hynny yn ddigon i dalu'r rhent. Cyfnod lle'r oedd cymdogion yn helpu ei gilydd wrth y gwair gyda'r bladur, pigau a'r rhacca bach ac wrth blannu a thynnu tato a rhannu'r cig man adeg lladd mochyn! Cofia Dewi am gael swllt i fynd i'r ffair a'r atgof am y wraig dweud ffortiwm yn medru adnabod anhwylder ar un o'r gwartheg. Mae'n dal yn gredwr cryf y daw aml freuddwyd a gweledigaeth yn ffaith. Er mwyn cael arian i fynd i'r ffair aeth Ieuan i ffereta a gwerthwyd y cwningod am wyth swllt a chwech. Dyna'r ffair orau gafodd erioed!

Canolbwynt y bywyd tu allan i'r cartre a'r ysgol oedd y Capel. Cofia Dewi yn ardal Llanfynydd am gyfarfodydd ar nos Sul yn nhai'r aelodau a'r disgwyliad ar blant i ddweud adnod bob Sul. Roedd mynd i oedfa'r bore, ysgol Sul pnawn ac oedfa'r nos yn batrwn arferol i'r Sul a phawb wedi gwisgo yn eu coleri gwyn a ffrynt dros y crys gwlanen adeg nad oedd gwneud gwaith fferm a'r unig hamddena ar y Sul a ganiataed i'r ieuencid oedd cerdded i ben rhiw Llwynceiliog. Y Parch Hedydd Jones oedd y gweinidog cyntaf y mae Ieuan yn ei gofio yng Nghwrtcadno ond y Parch D.J. Howells, Brechfa a'i bedyddiodd gan ysgrifennu'r englyn hwn iddo ym Meibl y teulu:

Un o hil yr awel iach-a'i dalent  
Yn dilyn ei linach  
I ganu pwy'n anghenach  
Yn y byd na Ieuan bach.

Bu'r Capel, canu ac eisteddfota yn ganolbwynt bywyd Ieuan. Mae'n arweinydd y gân ers blynyddoedd lawer ac yn ddiagon ers hanner canrif. Bu'n ysgrifennydd y Capel am ugain mlynedd, swydd bu ei dad yn ei gwneud am 46 mlynedd a heddiw ei ferch Rhiannon sy'n parhau â'r gwaith. Teimlodd hi'n fraint i gael croesawu'r Arlywydd Jimmy Carter a'i deulu i Gapel



Dewi a Ruth Jones

Cwrtycadno ac i'r aelwyd i gael te yn Abermangoed. Yn blentyn dan saith oed cofia gystadlu yn eisteddfod Gwyl Ddewi ym Mhumsaint yn canu "Draw, draw yn China" ac adrodd am "Y dryw bach" Bu tri o'r teulu yn aelodau o wythawd enwog Cwrtycadno a enillai yn holl eisteddfodau'r ardal o 1938-1950. Yn un o'r eisteddfodau hynny cyfarfu am y tro cyntaf a Beatrice a phriodi yn 1946. Bu'n rhan hefyd o barti cyngerdd Cwrtycadno yn canu ac yn actio'r ficer mewn drama. Buont yn casglu arian trwy gyngherddau a mabolgampau i brynu piano, gramaffon a radio i'r ysgol. Roedd yno yn sefydlu y Gymanfa Undebol, yn arwain côr Ffermwyr Ifainc Dyffryn Cothi ac yn ennill y cwpan. Arbenigodd ar ganu cerdd dant. Yr unig dro bu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol daeth yn drydydd allan o 28ain. Mae ei lais tenor hyfryd wedi ei glywed tipyn ymhellach na'r ardal hon mewn eisteddfod a chyngerdd. Cyhoeddodd gaset yn 1972 a CD gyda'i fab Alun yn 2002. Bu'n beirniadu yn eisteddfodau lleol gan ddechrau yn yr Eisteddfod Gylch yng Nghrugybar. Bydd enw Ieuan yn aml yn ymddangos ar restr buddugwyr llenyddol eisteddfodau lleol. Mae teuluoedd y ddau yn gantorion medrus. Enillodd Ina Wýres Dewi y Rhuban Glas yn y Genedlaethol.

Rhwng 1940 a 46 bu Ieuan yn aelod o dîm enwog tynnu rhaff Cwrt-y-cadno. Enillodd rhain bob gornest am flynyddoedd o Frynman i Fynwy a llwyddo i gipio'r cwpan yn barhaol. Un tro bu brwydr go ddwys rhwng Llanwrda a Chwrt-y-cadno a pharhaodd un tyniad am hanner awr a deng munud.

Pan ddaeth i ardal Pumsaint i wasanaethu cyfarfu Dewi a Ruth merch Gwargorof a'i phriodi dros 68 mlynedd nôl a hyfryd gweld y ddau yn dal i fyw ar yr un aelwyd lle magwyd eu pump plentyn John, Mair, Ceinwen, Marina a Goronwy. Yn ychwanegol at y ffermio sefydlodd Dewi ei fusnes contractio ac mae'r mab John a'r teulu yn parhau â'r fusnes. Mae Dewi'n aelod o Gyngor Cymuned Cynwyl Gaio ers Ebrill 1974. Aelod o Gyngor Dosbarth Llandeilo fu Ieuan am ddeng mlynedd tan ddiddymwyd y cyngor pan adrefnwyd llywodraeth leol. Bu'r ddau'n gefnogwyr brwd i Gŵn Cadno Cwrtycadno ers y cyfarfod cyntaf. Dewi oedd yn Feistr yr helfa am flynyddoedd lawer ac yn arbenigwr ar sicrhau y byddai'r cŵn yn codi cadno. Mae'n werth gwrandao ar eu stôr o straeon am hela a physgota dros y blynyddoedd. Roedd bore dydd Nadolig yn draddodiadol yn adeg i hela a saethu i'r dynion tra bod y merched yn paratoi'r cinio.

Heddiw mae'r ddau'n parhau i fwynhau bywyd. Dewi yn treulio llawer o'i amser yn gofalu am ei briod Ruth sydd yn gaeth i'w hystafell ers llawer blwyddyn ac yn dal i'w diddanu ag ambell gân gydag ambell awr yn mwynhau dilyn yr hela. Fe welwch Ieuan yn gyson yng Nghapel Cwrt-y-cadno ar y Sul ac ar fore Llun yn gyrru'r car a'r trailer a ŵyn i'w gwerthu i fart Llanybydder. Bob tro bydd y ci yn ei weld yn gwisgo'i ddillad gorau bydd yn mynd ar ei union i'r sied ond mae'n barod bob amser i'w groesawu yn ôl. Dymunwn eich gweld yn cael iechyd i barhau i fwynhau bywyd yn llawn am flynyddoedd eto.

### Cynllun i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Mae chwaraewyr y Scarlets wedi bod ar hyd a lled tref Caerfyrddin yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn tynnu sylw at unigolion sy'n dymuno gallu siarad Cymraeg ond heb gael y cyfle i ddysgu eto.

Lansiwyd y prosiect *I Wish I Could* yn Rhodfa Santes Catrin yn ystod y siopa Nadolig gyda'r hwyr. Roedd chwaraewyr y Scarlets yno ynghyd ag amrywiaeth o adloniant i'r siopwyr. Mae'r prosiect yn tynnu sylw at bobl sy'n dymuno gallu siarad Cymraeg megis **Rupert Moon** a mae'n annog pobl i ddysgu Cymraeg ac yn cymell siaradwyr Cymraeg y sir i ddefnyddio'u Cymraeg naill ai gyda'r teulu, ffrindiau neu yn yr ysgol.

Mae Rupert Moon yn datgan yn gyhoeddus ei fod yn dymuno gallu siarad Cymraeg, a dyma'r atebion a roddodd mewn cyfweiliad byr yn ddiweddar:

1. **Beth ydy'ch enw chi?** *Rupert Henry St. John Barker Moon*
2. **Ble dych chi'n gweithio?** *Rhanbarth rygbi gorau Cymru: y Scarlets!*
3. **O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?** *Ces i fy ngeni yn Walsall, Birmingham a symudais i fyw yn Abertillery pan yn 16.*
4. **Beth ydy'ch gwaith chi?** *Fi yw Cyfarwyddwr Masnachol y Scarlets, sy'n golygu mai fi sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau masnachol fel Noddi, Lletygarwch, Marchnata, Cyfathrebu, Cymunedau a Nwyddau!*
5. **Ydi'r Gymraeg yn bwysig i'ch gwaith o ddydd i ddydd?** *Ydy yn bendant. Ro'n ni'n falch iawn i lansio ein gwefan dwyieithog y llynedd, y clwb rygbi cyntaf erioed i gael gwefan dwyieithog Cymraeg/Saesneg. Ry'n ni'n ymwybodol iawn o'r ffaith bod cyfran fawr o'n cefnogwyr yn siaradwyr Cymraeg a rydym yn falch dros ben ein bod ni yn gallu cynnig gwasanaeth nad yw rhanbarthau a chlybiau eraill yn gallu cynnig.*
6. **Beth ydy'ch diddordebau chi?** *Mae fy nheulu yn bwysig iawn i fi ac wrth reswm rwy'n ceisio gwario cymaint o amser â phosib gyda fy ngwraig a'm dau o blant. Yn ddiweddar, rwy' wedi dechrau cerdded bob bore (am 6:30 y bore), a mae'n brofiad therapiwtig iawn a mae'n fy helpu i gysgu yn y nos, a rwy wedi cyfarfod â rhai cymeriadau rhyfeddol ar fy nheithiau yn y bore yn fy ngwisg lycra.*
7. **Diolch am gymryd rhan yn y prosiect "I wish I could" – pam dych chi'n credu fod y Gymraeg mor bwysig yn Sir Gâr?** *Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o Sir Gâr. Mae'n wych i glywed fy mhlant yn siarad Cymraeg yn rhugl a mor naturiol ar ôl dod adref o'r ysgol. Serch ei phwysigrwydd yn Sir Gâr, credaf ei bod hi'n bwysig i gefnogi'r iaith ar hyd a lled Cymru. Mae pobl wedi bod yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd yn Gymraeg ers canrifoedd yn yr ardal hon a mae hynny'n ffantastig. Mae'n rhoi hunaniaeth i bobl a maent yn falch iawn ohoni, digon teg hefyd. Bydda i'n gallu ymuno â'r sgysiau hynny cyn bo' hir!*
8. **Beth ydy'ch hoff air Cymraeg chi?** *Galla i gael dau ffefryn? Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn 'Boneddigion a Boneddigesau'!*
9. **Beth yw eich uchelgais chi?** *Os ydych chi'n dysgu Cymraeg, cadwch ati. Rwy'n gallu cydymdeimlo â chi! Rwy'n stryffaglo i ddweud rhai o'r geiriau caled, ond rwy'n benderfynol i gadw ati er mwyn un diwrnod gallu cael sgwrs lawn, yn Gymraeg, gyda'r plant.*
10. **Beth fyddai eich neges chi i drigolion Sir Gâr?** *Dewch i Barc y Scarlets. Mae'n le ffantastig, a rydym yn hynod o falch gyda'r hyn yr ydym yn gallu cynnig i'n cefnogwyr ar ddiwrnod gêm, mae rhywbeth yma i bobl o bob oedran a mae nifer o ddigwyddiadau diddorol gyda ni ar y gweill felly cadwch lygad mas amdanyn nhw!*

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â [iaithGymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithGymraeg@sirgar.gov.uk) neu ffoniwch (01267) 224008.





## Cyfarchion Cadeirydd Y Lloffwr

Wrth i'r Nadolig nesau ac i 2010 brysur ddod i'w therfyn hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno'n dda i bob un ohonoch chi sydd wedi cyfrannu tuag at y Lloffwr. Yn ohebwy'r a ffotograffwyr, yn hysbysebwy'r, yn ddosbarthwyr a gweithwyr, ac wrth gwrs yn ddarlennwyr, mae'n diolch ni yn ddiffuant iawn am eich cefnogaeth gyson. Nid ar chwarae bach mae cynhyrchu deg rhifyn o bapur bro y flwyddyn. Diolch arbennig i'r Uwch-olygydd, Mansel Charles am ei waith diflino eto eleni. Golyga gyhoeddi rhifyn o'r Lloffwr oriau di-bendraw o lafur cariad ac mae'n dyled ni'n fawr iddo.



Eleni, buom yn ffodus i gael cymorth Swyddog Datblygu sef Daniel Thomas ac fe fu'n brysur yn hyrwyddo marchnata a hybu gwerthiant yn ogystal â chysodi'r Lloffwr. Fe hefyd fu'n gyfrifol am Dudalen y Plant ers dechrau'r flwyddyn.

Ydych chi wedi digwydd gweld Calendr Y Lloffwr 2011 yn y siopau? Mae lluniau gwych o harddwch bro Dinefwr ynddo yn ogystal ag un neu ddau lun annisgwyl a gwahanol iawn – y cyfan ohonyn nhw o ansawdd rhagorol wedi eu tynnu gan ffotograffwyr Y Lloffwr. Syniad ardderchog am anrheg Nadolig rhesymol (£5.00) ac yn rhad a hwylus i'w bostio hefyd.

Cyn cau pen y mwdwl, gaf i eich gwahodd yn gynnes iawn i Noson Agored Y Lloffwr ar nos Fawrth, 18 Ionawr yn Y Llew Coch, Llangadog. Dyma gyfle i chi leisio barn, awgrymu gwelliannau neu drafod. Cofiwch, eich papur bro chi ydy'r Lloffwr!

Nadolig dedwydd iawn a Blwyddyn Newydd Dda ymhob ystyr i bawb.

**Gwenda Rees**

## RYSAIT O'R GEGIN

### dan ofal Doreen Martin

Dyma rysait enillodd **Steffan Evans**, Blwyddyn 12 o Ysgol Gyfun Tre-Gîb, Llandeilo yn ddiweddar yng Ngholeg Pibwrlwyd yn y rownd leol gyda *Springboard-Future Chef*. Bydd Steffan yn mynd ymlaen i Goleg Castell Nedd ym mis Chwefror ar gyfer rownd Cymru. Dymuna Steffan ddiolch i Bwyty Valans, Llandybie am eu cymorth parod a'u hyfforddiant gwerthfawr.

### Posset Lemwn [pwwin]

300ml hufen dwbwll  
1 lemnw, croen a sudd  
75gm siwgrw gwyn

### Dull

Rhowch yr hufen, croen a sudd lemnw gyda'r siwgrw mewn i sospan fach a rhowch ar y berw.

Cymysgwch yn dda. Ar ôl rhyw 5 munud arllwyswch mewn Iddau gwpan neu ddysgl. Gadewch i oeri cyn eu rhoi yn yr oergell.

### Bisgedi Shortbread

150gm blawd plaen  
100gm menyn  
40gm siwgrw gwyn

### Dull

Cymysgwch y blawd, siwgrw a menyn mewn bowlen yn dda nes i'r cymysg ddod at ei gilydd fel toes.

Roliwch allan a torrwch mewn i gylchoedd.

Coginiwch am tua 5-6 munud ar gwres ffwrn 180/nwy 5

Oerwch ar rac oer cyn eu bwyta.

## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

### Cadeirydd

Gwenda Rees

Tŷ Nant

42 Parc Pencrug

Llandeilo SA19 6RZ

☎ (01558) 823546

### Uwch Olygydd

J. Mansel Charles

Sarn Gelli, Llanegwad,

Nantgaredig

Caerfyrddin, SA32 7NL

☎ (01558) 668823

☎ (07970) 031888

✉ [ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)

✉ [manselcharles@btinternet.com](mailto:manselcharles@btinternet.com)

### Swyddog Datblygu'r Lloffwr

Daniel Thomas

☎ (01558) 825336

### Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd

☎ (01558) 825336

### Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams

☎ (01550) 777834

### Swyddog Tanysgrifio

Peter Harries

☎ (01558) 823075

### Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

☎ (01267) 233510

### Golygydd y mis

#### Rhagfyr 2010

J. Mansel Charles

### Cyfranwyr rheolaidd

*Rysait o'r Gegin*

Doreen Martin

*Y Gorlan Grefyddol*

Nigel Davies

*Llecyn Llên*

T.M. Thomas

*Tudalen y Plant*

Daniel Thomas

*Croesair*

Handel Jones (Agrestis)

### Ffotograffwyr

Gareth Vaughan Jones

☎ (01267) 220801

John Davies

☎ (01269) 850497

William Theophilus

☎ (01550) 720425

### Prawddarlenn

Elin Bishop

Len Richards

### Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

☎ (01558) 825336

### Cofnodydd Cyfarfod

#### Blynyddol

Rhian Morgan

## Cydnabyddir cefnogaeth



[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

## DYDDIAD CAU

Rhaid i ddeunydd *Lloffwr* Ionawr/Chwefror i fod yn nwylo'r Uwch Olygydd cyn 2 Ionawr, 2011

**RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG**

Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

**[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)**

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur




## ~ DIGWYDDIADUR ~

## RHAGFYR

- 3 Carolau o amgylch Coeden Nadolig Llanarthne am 7pm. Casgliad tuag at Uned Cancr y fron, Llanelli.
- 3 Cyngerdd Mawr SyM Sir Gâr yn neuadd Pontyberem am 7.30pm gyda Y Tri Tenor, Helen Gibbon, Côr Meibion Porth Tywyn, ac Aelodau SyM Sir Gâr. Arweinydd y noson: Brian Walters. Tocynnau: £5 Pat / Beryl (01558) 823265 / 823213.
- 3,4 Siop Ddeuddydd Ymchwil Cancr yn Neuadd y YMCA, Heol Lydan, Llanymddyfri.
- 4 Ffair grefftau yn Neuadd Llanarthne. 10am – 4pm.
- 4 Miri'r Nadolig yn Neuadd Llangadog. 10am–12pm.
- 4 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Nantgaredig a'r Fro, Canolfan Gymdeithasol Felin-gwm, 10am.
- 4 Cinio Dathlu C.Ff.I. Dyffryn Cothi yn 60 oed ym Mhrifysgol Llanbed.
- 4 Cyngerdd yn Neuadd Goffa Pontargoeth am 7pm. Artistiaid: Côr Seingar, Caerfyrddin; Eirian Davies, Cwmifor a Phlant Ysgol Gynradd Nantgaredig. Arweinydd: Evan Davies.
- 4 Gyrfa Chwist Sioe Trap yn Neuadd Ddinesig Llandeilo am 7.30pm. Galwr: Llinos Davies.
- 4,5 Ffair draddodiadol y gaeaf yn Aberglasney, Llangathen.
- 5 Wrth y Preseb - Noson o garolau a cherddi yng nghwmni Côr Sainteilo yn Festri Capel Newydd, Llandeilo. 6.30pm. Lluniaeth ysgafn i ddilyn. Manylion pellach a thocynnau (01558) 825336.
- 5 Côr Llanpumsaint a'r Cylch yn cynnal Oedfa o Fawl yng Nghapel Ffynnonbedr, Meidrim. 7.30pm. Arweinydd: Gwyn Nicholas. Artistiaid: Emyr Jones, Ffion Jones a Meinir Jones. Elw tuag at Tŷ Hafan, Hospis i blant. Rhaglen: £3.
- 5 Cyngerdd Nadoligaidd yng Nghapel Salem, Llanymddyfri yng nghwmni Y Tri Tenor ac artistiaid ifanc lleol sef Carys Rees, Delyth ac Eleri Jones, Angharad Watkins a Lowri Pugh-Morgan. Tocynnau £8. Elw at Capel Salem ac Ysbyty Llanymddyfri.
- 6 Oedfa Garolau yng Nghapel Penrhiwgoch am 7 o'r gloch yng nghwmni Plant yr Ysgol Sul ac Ysgol Gynradd Maesybont.
- 6 Sioe Nadolig Ysgol Gynradd Llansadwrn am 5pm yn Eglwys Llasadwrn gyda lluniaeth i ddilyn yn yr ysgol.
- 7,8 Cyngerdd Nadolig Ysgol Gynradd Gymraeg Teilo Sant, Llandeilo yn Neuadd Ysgol Gyfun Tre-gib. 6.30pm.
- 9 Sioe Nadolig Ysgol Gynradd Talylychau am 1.30pm a 7.00pm. Cyswllt manylion: (01558) 685356.
- 9 Perfformiadau Nadolig Ysgol Gynradd Llangadog (prynhawn a nos) yn Neuadd Gymunedol Llangadog. Tocynnau: (01550) 777519.
- 10-12 Gŵyl y Goeden, Capel Salem Heolgaed. Nos Wener - Cyngerdd gan Gor Meibion Caerfyrddin, Unawdydd Carys Davies, 7.30pm. Tocynnau: £5 (01558) 823075. Dydd Sadwrn - Capel ar agor rhwng 2pm a 4pm. Dydd Sul - Oedfa am 11.00am.
- 12 Cyngerdd Nadolig Ysgol Gynradd yr Eglwys Llanfynydd yn Eglwys Llanfynydd.
- 14 Cyngerdd Nadolig Ysgol Gynradd Caio yn Eglwys Caio am 7p.m.
- 16 Cylch Cinio Cymraeg Llanymddyfri yng Ngwesty Pen y Brenin am 7.30pm. Siaradwr gwadd: Lyn Lewis, Llanymddyfri.
- 17 Ffair Nadolig Ysgol Gynradd Gymraeg Teilo Sant yn Fferm Dinefwr Homefarm, Llandeilo.
- 18 Gyrfa Chwist yn Neuadd Llanddeusant. 7.30pm Galwr: Lynwen Morgan, Gorslwyd, Heol Senni.
- 19 Cwrdd Nadolig y Plant yng Nghapel Soar Llandfyan 2pm.
- 19 Cynhelir 'Parsel Nadolig' yng nghwmni Côr Cyswllt Cil-y-cwm yn Nghapel Soar Tŷnewydd, Cil-y-cwm am 2.30pm. Pris mynediad: £5 gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Cyswllt: (01550) 720622.
- 20 Gyrfa Chwist C.Ff.I. Llangadog yn Neuadd Llangadog. 7.30pm. Galwr: Elin Roberts, Cefnucheldre, Llanwrda.
- 29 Noson Gymdeithasol yn Neuadd Pumsaint. 7pm. Datganiad ar y delyn gan Georgina Cornock-Evans.

## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis



## Ar Draws

1. Distaw (5)
4. Yn ôl Tony ac Aloma, roedd hon gyda Pat, Janet a Glen yng Nghaffi Gaerwen (4)
7. Anhyblyg (8)
8. Cymorth ariannol (4)
9. Nid isel (4)
10. Esboniad (7)
11. Bwncath (4)
12. Un o afonydd Cymru (4)
15. Twymo (7)
17. Nid pell (4)
20. Stanley bach (4)
21. Tai ceffylau (8)
22. Yr ochr chwith (4)
23. Y teitl isaf a roddir i arglwydd yng Ngwledydd Prydain (5)

## I Lawr

1. Nid tew (5)
2. Aelod o gangen Fethodistaidd (7)
3. Gwneir y bara hwn o wymon (4)
4. Ysgrif mewn papur newydd (6)
5. Byddwn yn gwisgo'r rhain am ein traed (5)
6. Mae hon yn briod â gu'r (6)
11. Dinas yn Lloegr, nid nepell o Bontydd Hafren (6)
13. Adeilad ar gyfer cadw cnydau (7)
14. Lle bydd cleifion yn derbyn triniaeth (6)
16. Pwnc Syr Glanmor Williams a Dr John Davies (5)
18. Un o wledydd Ewrop (5)
19. Mae disgwyl hwn ar ôl cwestiwn (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.  
Atebion at yr Uwch Olygydd cyn **2 Ionawr 2011.**

ENW:.....

CYFEIRIAD:.....

FFÔN:.....

ENILLYDD CROESAIR TACHWEDD: **Dr. Wallace Evans**,  
Llanwaged, 43 Geryllan, Penrhyncoch, Aberystwyth, Ceredigion.

## ATEBION

**Ar draws:** 5. Moron 6. Enwog 8. Eden 9. Eli 10. Gwin  
11. Curadur 13. Cysgu 16. Asbri 18. Deintydd 21. Ynys  
23. Oen 24. Malu 25. Seidr 26. Enwyn  
**I lawr:** 1. Bryn 2. Anwedus 3. Cegin 4. Gwag 5.  
Medru 7. Gwisg 12. Awr 14. Ynn 15. Cefnder 17. Sinws  
19. Ydlan 20. Godre 22. Sais 24. Mawn



## ~ HYSBYSEBION ~

### JOHN ANTHONY

CERFLUNWYR  
COFADEILIAU  
a SEIRI MAEN



a'i Gwmni

Perch. E. J a  
N. Gimblett  
(C. Harry gynt)

24 STRYD FAWR, RHYDAMMAN

☎ (01269) 596227 Nos: 592935

*Cerflunwyr Cofadeiliau yn y lle uchod ers 1920 hefyd yn*

123 STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO

☎ (01558) 823104

Cysylltwch â Gerwyn Davies yn Swyddfa'r  
NFU Mutual yn Llandeilo ar (01558) 823382



**Am wasanaeth  
lleol o safon -  
yswiriant  
pensiynau a  
buddsoddiadau**

### JONES TELEVISION

**Gwerthu, Rhentu a Gwasanaeth Domestig**

☎ Nantgaredig (01267) 290372 / (01267) 290573

*Eich busnes annibynnol lleol lle mae gofal cwsmer yn  
cael ei warantu - dosbarthu am ddim (hyd at 30 milltir)*

**Teledu, Fideo, Peiriannau Golchi a Sychu  
Systemau Hi-fi, Oergelloedd a Rhewgelloedd**

Gosod am ddim i bwyntiau sy'n bodoli eisoes  
HOTPOINT - PHILIPS - SIEMENS - BOSCH

JVC - HOOVER - CANNON - DIMPLEX

### Igam Ogam Anrhegion Di-ri

yn arbenigo mewn nwyddau Cymraeg personol



~ SEFYDLWYD 1797 ~

### D. LLOYD A'I FEIBION

GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 a 650451

Ffacs: 01558 650440

*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu,  
a ffensio o bob math.*

*Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau.*

### Eric Davies GOSODWR TEILS



Gwaith yn cynnwys pob agwedd ar adnewyddu,  
ceginau, ystafelloedd ymolchi a lloriau.

Derwendeg, Pontargoethi, Caerfyrddin, SA32 7NH

☎ (01267) 290236 ac 07966 542586

### HAYDN ADAMS PEINTIWR A PHAPURWR

10 Heol y Frenhines,

Llanymddyfri,

Sir Gâr

01550 721754 / 07776036642



### EIFION ROBERTS

**PLYMWR PROFIADOL**

*Arbenigwr mewn gwres canolog*

☎ **(01558) 685007**

### SIOP Y PENTAN

*Y dewis gorau o lyfrau  
casetiau a chardiau Cymraeg*

Y FARCHNAD  
CAERFYRDDIN

☎ (01267) 235044

### WILLIAM I. PHILLIPS

DERWENDEG, LLANSAWEL

☎ (01558) 685446

Symudol 07836598989

CONTRACTWR CLUDIANT

CYNNYRCH CHWAREL

### NEW ROAD GARAGE

☎ (01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma

*Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!*

*Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos*

Pob math o wasanaeth moduron a  
gwaith atgyweirio ffrâm

### CHECKPOINT



☎ (01558)  
**650338**


*'Tyres, Exhausts a  
Batteries'  
Profion M.O.T*



# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Helo blant.

Wel, mae'r Nadolig yn agosáu'n gyflym. Gobeithio eich bod wedi ysgrifennu llythyr at Siôn Corn erbyn hyn ac eich bod yn derbyn popeth yr ydych yn dymuno.



Nadolig Llawen i chi i gyd, a  
Blwyddyn Newydd Dda!!

Elis



## LLIWIWCH Y LLUN ISOD



Enillwyr y mis diwethaf oedd:

**Ioan Hughes**, Godregarreg, Llangadog. 8 oed.


**Myrfanwy Baker**, 15 Towy Terrace, Ffairfach. 3 oed.

Anfonwch eich cynigion at

Elis, Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo erbyn 18 Rhagfyr, 2010.



## ~ HYSBYSEBION ~

**AQUAFIX WATER & ELECTRICS LTD****ARBENIGWYR MEWN SYSTEMAU  
DWR GLÂN A BRWNT****Ffoniwch  
Gareth  
neu Jean****☎01269 841 800 / 07814 027 045**Uned 6, Stad Ddiwydiannol Gorslas,  
Gorslas, Sir Gâr3 Gardd Llydaw  
Lôn Jackson  
Caerfyrddin, SA31 1QD  
**Ffôn: 01267 231133**  
**Symudol: 07976234176**  
**e-bost: siop@t-hwnt.co.uk**

www.t-hwnt.co.uk

**L.J. BAILEY A'I FEIBION**

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol  
Pob math o gig a bacwn o ansawdd da  
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]

Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural MerchantsCangen Pumsaint, Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin  
**☎ (01558) 650215****☎ (01570) 422540****AM EICH HOLL NWYDDAU  
AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH Â NI.**Am fusnes cyfeillgar, teuluol,  
profiadol yn y byd amaethyddol,  
heb os, i'ch stoc cewch fwydydd  
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.**RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH**

Ffarmers, Llanwrda

**BEICIAU NEWYDD, TELARS****RHANNAU, GWASANAETH**

Dewch ata i gyda'ch Honda ATV

**Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740****GERAINT WILLIAMS**Modurdy Rhosybedw  
FfaldybreninGwasanaeth cyrff moduron ar  
gyfer gwaith yswiriant neu breifat

☎ (01558)

**650609**Profion MOT, Batteries,  
ExhaustsGwasanaeth Adfer  
ac Atgyweirio**D. L. WILLIAMS**

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

*Masnachwr llechi a phob math o goed*

Bwyd anifeiliaid Bibby

☎ (01558) 685217 (dydd) / 685722 (nos)

**ADEILAD CLADDINGS**

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

**CYNLLUNIAU***Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau***MARTIN WATTS**

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr

Ffôn: Llangadog (01550) 777591

**A & B Plant & Tool Hire**

BRYNDOLAU, FFARMERS

LLANWRDA, SIR GÂR

SA19 8JP

**ARAGOR**

LLUN - GWE 8.00 - 5.30

SAD 8.00 - 1.00

**FFÔN PUMSAINT. 01558 650536****FFAC S PUMSAINT. 01558 650516****CARPEDI  
PUMSAINT***Gwasanaeth gosod carpedi  
hen, ail-osod neu newydd*Ffoniwch Alun  
(01558) 650364  
neu 07977 121201AXMINSTERS, WILTON,  
TWISTS, GWLAN, CORDS,  
CUSHIONFLOOR,  
UNDERLAYS*"Carpedi i Siwtio Pawb"*Gellir trefnu ymweliad â'r  
cartref gyda samplau.**Roger Davies  
LLOGI PEIRIANNAU**Gwnawn unrhyw waith -  
bach neu fawr

20 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614

☎ 07968 838467

Peiriannau turio â thraciau 5-15 tunnell.


Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio  
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau  
trymion.Cwmgolygfa, Rhydcymerau,  
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP



## ~ CEFN GWLAD ~

**Cofnod gweledol o fywyd y wlad**

Mae cyfrol ddiweddaraf gwasg Y Lolfa yn gofnod gweledol o fywyd yng nghefn gwlad Cymru rhwng 1850 a heddiw. Gwyn Jenkins sy'n gyfrifol am ddod â'r casgliad arbennig hwn o ffotograffau ynghyd mewn llyfr sy'n croniclo'r newidiadau a'r datblygiadau yn y byd amaethu dros y canrifoedd.



Yn gyfrol ddwyieithog, mae **Byw yn y Wlad / Life in the Countryside** yn cynnwys 160 o ffotograffau craff o bob cwr o Gymru. Yn lluniau o bobl wrth eu gwaith, yn teithio ac yn hamddena ac o'r pentrefi gwledig, ffermydd a thyddynnod bach, mae'n gofnod hanesyddol o'r newid ym mywyd a gwaith yng nghefn gwlad.

Daw'r lluniau trawiadol yn bennaf o gasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol, gan gynnwys lluniau gan ffotograffwyr adnabyddus.

Roedd felly'n gyfarwydd iawn â'r cyfoeth o ffotograffau oedd ar gael yn y Llyfrgell ac fe gafodd gymorth gan ffermwr lleol i ddeall mwy am gynnwys a'r dulliau a welir mewn nifer o'r lluniau.

Gyda'r datblygiadau mewn amaethu a thrafnidiaeth yng nghefn gwlad Cymru, mae'r gyfrol hon yn gofnod o fywyd Cymreig sy'n prysur ddiflannu.

ISBN: 978-1-84771-284-4

Pris: £14.95

**BRIWSION O'R BUARTH**

gan Y Lloffwr Bach

Mi fentraf taw dim ond ychydig ohonom ni, a'r rheini'n perthyn i'r genhedlaeth hŷn, sydd bellach yn gyfarwydd â'r term **betino**, sy'n tarddu o'r gair Saesneg *beating*.

Felly, cystal i mi roi ychydig o gefndir, gan gydnabod fy nyled i'r gyfrol ragorol, *Ar Lafar, Ar Goedd* gan David Jenkins.

Yn yr hen ddyddiau, câi tir mynydd ei wella, glwt neu lain ohono ar y tro, nid ag achles ond trwy ei fetino. Hynny yw, cai'r tir ei ddigroeni a'i losgi.

Ambell waith câi clwt ei ddigroeni'n llwyr. Bryd arall, cai ei ddigroeni bob yn ail sribyn yn unig, a chai'r tywyrch a godwyd eu troi wyneb i waered ar y sribynnau nas codwyd. Wedyn câi'r cyfan ei bydru cyn ei losgi.

Ar ôl triniaeth o'r fath, meddai David Jenkins, roedd y tir yn frith neu'n fraith neu wedi'i frychu. A dyna yw tarddiad ambell enw fel Gelli Fraith, Brithdir a Brechfa.

Wrth fetino, dim ond trwch modfedd a godid o'r wyneb. Defnyddid haearn gwthio at y gwaith, sef *breast plough* yn Saesneg. At frest y ddaear y mae'r enw'n cyfeirio ac nid at frest y gweithiwr, oherwydd â'r cluniau y gwithid yr offer.

Yn *Mae'n Ddiwedd Byd Yma*, mae Herbert Hughes yn dyfynnu un o ffermwyr Mynydd Epynt, sef Mr Rees Price, Cwm Pistyll, Merthyr Cynog, gynt o Wybedog, a recordiwyd ar gyfer archifdy'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yn 1959.

'Betingo' yw'r gair a ddefnyddir ganddo fe, ac mae'n disgrifio'r offer fel "y brestblog a'r clustog ar y coese". Rhoddid "pren hir mewn socell yn y brestblog – pren croes i moelyd y gŵys drwadd o hyd. Os bydde daear weddol rwydd, gallech chi fynd am ucen llath a byse'n cwmpo fel cwys, a falle na elech chi ddim troedfedd."

Mae Mr Price yn sôn am hen fachgen yn gwneud ei fywoliaeth wrth fynd o fferm i fferm i fetingo. Câi chweugain yr erw am ei drafferth - ac roedd hynny'n golygu pedwar diwrnod o waith caled!

**Cyflwyno'r gorau o gartrefi cefn gwlad Cymru**

Yn llechu ar hyd a lled cefn gwlad Cymru, nifer ohonynt yn cuddio mewn caeau anghysbell, mae cannoedd o drysorau pensaernïol. Enghreifftiau arbennig o sut mae cynllunio a steil yn cael ei ddylanwadu gan leoliad a chyfnod.

Mae'r adeiladau, strwythurau a'r cartrefi hyn yn cael eu cynnwys mewn cyfrol newydd sy'n ffrwyth gwaith Richard Suggett o'r Comisiwn Brenhinol a'r hanesydd Dr Greg Stevenson.

Cyhoeddir **Cyflwyno Cartrefi Cefn Gwlad Cymru / Introducing Houses of the Welsh Countryside**, gan Y Lolfa mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'n edrych ar ddatblygiadau mewn cartrefi yng Nghymru o'r Oesoedd Canol hyd at y Chwyldro Diwydiannol. Yn llawn ffotograffau trawiadol, lluniau 3D arbennig a darluniau wedi eu creu gan y cyflwynydd teledu, Aled Samuel, mae'r gyfrol ddwyieithog hon yn gronid rhagorol o bensaernïaeth ac adeiladwaith dros y canrifoedd. Wedi ei ysbrydoli gan gyfrol *Houses of the Welsh Countryside* gan Peter Smith a gyhoeddwyd yn 1975, mae'r gyfrol hon yn gyflwyniad o'r newydd i lyfr Peter ac yn cynnwys canfyddiadau sydd wedi eu darganfod ers 1975. Yn bwrw golwg ar 36 cartref ar hyd a lled cefn gwlad Cymru, mae'r awduron yn defnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth i'n harwain o un adeilad i'r llall. Yn cynnwys enghreifftiau penodol o arddull adeiladau gan gynnwys tŷ Eryri, tŷ hir, bwthyn a neuadd agored o bob cwr o Gymru, o Langadog i'r Gelli Gandryll ac o Fochdre i Langollen, mae'r gyfrol yn gofnod o ddatblygiadau adeiladu ar draws y wlad.

ISBN: 978-1-84771-276-9 Pris: £14.95



Pontbrenmydyr (Llanrechaeron, Ceredigion) Rhiwson-uchaf (Llanwenog, Sir Aberteifi) Coedweddus (Llangadog, Sir Gaerfyrddin)



18 Stryd Caerfyrddin,  
Llandeilo  
SA19 6AE  
(01558) 823658



22 Stryd y Cerrig,  
Llanymddyfri  
SA20 0JP  
(01550) 720500

**Dr Rhys Ap Delwyn Phillips**

B.D.S., MSc., M.F.G.D.P.

**Dr Aimee Jones**

B.D.S. Caerdydd

**DROS 30 O FLYNYDDOEDD  
O WASANAETH DEINTYDDOL  
TEULUOL TRADDODIADOL**

**YN COFRESTRU CLEIFION NEWYDD**

**RR REES RICHARDS**

**Arolygwyr Siartiedig, Asiantau Ystad a Thir**

Sefydlwyd 1845

**Cynghorwyr Tir ac Eiddo**

Yn arbenigo mewn Eiddo Amaethyddol, Preswyl a  
Masnachol ar draws De Cymru.

*Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar y manylion isod*

Prif Swyddfa:

Druslyn House, Stryd De la Beche,  
Abertawe, SA1 3HH.

Ffôn:

(01792) 650 705

[www.reesrichards.co.uk](http://www.reesrichards.co.uk)



Rheoleiddiwyd gan yr RICS



**ALUN DAVIES**

**ADEILADWR**

Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG

☎ **01558 650570 [Cartref] / 07974 716211 [Symudol]**  
e-bost: [alundavies1@hotmail.com](mailto:alundavies1@hotmail.com)

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd,  
atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau  
cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC  
**Am wasanaeth heb ei ail a chreffftwaith o safon.**

trywydd

**Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol  
am bris cystadleuol**

**Gwasanaethau Iaith**

- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu ysgrifenedig
- golygu a phrawf-ddarllen

**Gwasanaethau Ymgynghorol**

- hyfforddiant
- ymchwil
- rheoli prosiectau

**Llogi Offer**

- cyfieithu ar y pryd
- sain a goleuo
- cynadledda

**Trywydd**


Y Llwyfan, Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EQ

ffôn 01558 825336  
ffacs 01558 825339

post@trywydd.co.uk  
[www.trywydd.co.uk](http://www.trywydd.co.uk)

Un o wasanaethau

Menter Bro Dinefwr



**GWAITH CYNNAL A CHADW**

Am bob math o waith megis ffensio  
ar eich fferm neu yn eich gardd, mawr neu fach,  
planhigion drain gwyn a du, coed cyll ac eraill o  
had lleol. Cysylltwch gyda:

**HUGH GWYNNE**  
ar 07966543258



Esgidiau lledr o safon uchel

Bagiau a chyfwisgoedd  
amrywiol ac unigryw o'r Eidal,  
Sbaen a'r Almaen

*Heel Appeal*

Digon mewn stoc bob amser

129 Stryd Rhosmaen, Llandeilo

☎ (01558) 823294



## ~ Y GORLAN GREFYDDOL ~

**Wythnos gofiadwy o weithgarwch Cristnogol yn Sir Gaerfyrddin****Taith Y Profiad**

Bu'r wythnos yn arwain at hanner tymor yn gyfnod arloesol yn Sir Gaerfyrddin wrth i Eglwys Bresbyteriaidd Cymru mewn cydweithrediad â Menter Ieuencid Cristnogol (M.I.C.) Sir Gaerfyrddin drefnu taith o gwmpas pump o ysgolion uwchradd y sir. Ymunodd y chwaraewr rygbi rhyngwladol, Garin Jenkins a'r hyfforddwr Chris Jones (swyddog plant gyda Gleision Caerdydd) gyda'r cyflwynydd radio a theledu, Cynan Llwyd a'r ymgyrchwyr iaith, Gwenno Teifi ac Ifan Roberts i gynnal gwersi mewn rygbi, rapio a gwleidyddiaeth. Yn Gristnogion o argyhoeddiad, bu'r tîm yn cynnal sesiynau adeiladol a chyffrous a wnaeth apelio'n fawr at y disgyblion.



Wrth ymweld ag Ysgolion Tre-gŵb, Llandeilo; Y Strade, Llanelli; Dyffryn Aman, Rhydaman; Maes-yr-yrfa, Cefneithin; a Bro Myrddin, Caerfyrddin cafwyd cyfle i sôn am berthnasedd y ffydd Gristnogol i fywyd bob dydd. Amlygwyd mewn gair a gweithred bod Cristnogaeth yn ymwneud â phob agwedd o fywyd. Bu sesiynau *Hawl i Holi* yn y mwyafrif o ysgolion pan roddwyd cyfle i'r disgyblion i holi'r tîm ar faterion cyfoes gan gynnwys materion ffydd. Gyda'r hwyr trefnwyd C.I.C. (Clybiau Ieuencid Cristnogol), mewn canolfannau oedd yn agos i'r ysgolion. Diweddwyd yr wythnos gyda gig Gristnogol yn neuadd Ysgol Maes-yr-yrfa.

**Joio Gyda Iesu**

Uchafbwynt wythnos *Taith Y Profiad* oedd yr oedfa, *Joio Gyda Iesu* a gynhaliwyd ar brynhawn Sul 24 Hydref yng nghapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin. Daeth cynulleidfa o tua 250 ynghyd i foli'r Arglwydd ac i glywed cyhoeddi neges y newyddion da am Iesu Grist, a hynny mewn ffordd gyfoes a chyffrous. Arweiniwyd y mawl gan fand yn cynnwys pobl ifanc lleol o dan arweiniad medrus Nia Williams (Coleg Y Bala), a gosodwyd naws addolgar, hyfryd gan gôr Y Gobeithlu, Caerfyrddin yn canu dwy gân o fawl i'r Iôr.

Thema'r oedfa oedd, *Beth yw Cristion?* ac atebwyd y cwestiwn mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd gan gynnwys cyflwyniadau fideo ar sgrîn fawr. Yn y lle cyntaf holwyd pobl ar y stryd am eu barn o beth yw Cristion?

Roedd rhai o'r atebion yn adlewyrchu'r cymysgwch a'r anwybodaeth sy'n perthyn i'n hoes. Dilynwyd hyn gan gyflwyniad cyfoes o ddameg *Y Mab Afradlon* gyda rhannau o'r Ysgrythur yn cael eu darllen gan aelodau o Ysgol Sul Hermon ger Cynwyl Elfed, a rhannau yn cael eu dramatiddio ar ffurf fideo ar



Mike Adams

y sgrîn. Cyflwynwyd sgets ar fideo, cyn i Mike Adams o Lanelli annerch y gynulleidfa luosog oedd yn cynnwys pobl o bob oed.

Mae ganddo ddawn arbennig i swyno cynulleidfa gyda'i hiwmor naturiol cyn defnyddio'r hiwmor hwnnw i gyflwyno neges yr efengyl mewn ffordd syml a gafaelgar. Cyn gorffen yr oedfa chwaraewyd drymiau bongo mewn ffordd ysbrydoledig gan ŵr sydd a'i wreiddiau yng ngwlad Ghana, Clive Edwards neu *bongo Clive*.

Gadawodd y gynulleidfa wedi eu hysbrydoli ac mae pwyllgor llywio M.I.C. yn awyddus i gynnal yr oedfa hon yn flynyddol gan roi cyfle i eglwysi bach a mawr ar draws y sir ddod at ei gilydd i *joio gyda Iesu*.

**Carolau'r Groes**



Lawnsiwyd y gyfrol **Carolau'r Groes** o 23 o garolau newydd sbon yng Nghapel Mynydd Seion, Pen-y-groes, Sir Gaerfyrddin, nos Sul, 7 Tachwedd. Canodd Cantorion Y Rhyd chwech o'r carolau yn ystod y noson a mawr fu'r clod i'r côr am eu cyflwyniad sensitif.

Dyma ail lyfryn o waith Gerald Morgan, yr emynydd-gyfansoddwr o Dregaron, Ceredigion, gynt o Ben-y-groes. Symbylwyd ef gan gymal yn Efengyl Mathew o'r sgwrs rhwng Gabriel a Joseff pan ddywed Gabriel am y Baban i ddod, "Gelwir Ei enw yn Iesu, **oherwydd Hwn a ddaw i achub Ei bobl o'u pechodau.**" Fel Nantlais yn "Hwiangerdd Mair" a hen garolau'r Plygain, trawyd ef gan y berthynas rhwng Y Geni a'r Groes.

Roedd y gynulleidfa ym Mynydd Seion wedi eu plesio'n fawr gan y gerddoriaeth yn ogystal â'r geiriau. Soniodd sawl person sut roedd eu cyflwyno wedi mynd â hwy yn syth at ysbryd y Nadolig.

Gellir prynu copiau o'r gyfrol drwy'r post yn unig oddi wrth: Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG.

Anfonwch sic am £5.50, sy'n cynnwys postio, yn daladwy i Betsan Morgan, Carolau'r Groes.

**Cyfrol newydd yn gydymaith i'r Cristion cyfoes**

Mae cyfrol gan John Stott, un o arweinyddion crefyddol mwyaf dylanwadol y byd, wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair.

Gwerthodd y fersiwn wreiddiol o **Drwy'r Beibl Drwy'r Flwyddyn** dros chwarter miliwn o gopïau yn fyd-eang ac mae'r cyhoeddwr yn gobeithio y bydd addasiad Meirion Morris yn cynnig cymorth i arweinwyr ac unigolion fel ei gilydd, wrth i Gristionogaeth geisio parhau i fod yn berthnasol i fywyd yn yr 21fed ganrif.

Gan ddefnyddio'r calendr eglwysig, mae *Drwy'r Beibl Drwy'r Flwyddyn* yn tywys y darllynydd yr holl ffordd trwy'r Beibl o'r Cread yn Genesis 1 i'r Dyddiau Diwethaf yn Datguddiad 22 a hynny dros 365 o ddiwrnodau, taith blwyddyn.

Mae *Drwy'r Beibl Drwy'r Dydd* gan Cyhoeddiadau'r Gair ar gael mewn siopau neu gwales.com ISBN 9781859946695.

Clawr caled, gyda delweddau dyfrliw.

Pris: £14.99.



## ~ LLECYN LLÊN ~

### Meistri'r Gynganedd

Fel awdur llyfrau plant llwyddiannus iawn y mae **T. Llew Jones** yn cael ei adnabod erbyn hyn. Ond cyn iddo droi i'r maes hwnnw, yr oedd wedi amlygu ei hun fel bardd dawnus, gan ennill Cadair y Genedlaethol yn 1958 a 1959 am awdlau grymus. A



bydd neb ohonom a fu'n gorfod ei wynebu ar Ymryson y Beirdd tua chanol y ganrif ddiwethaf ag amheuaeth nad oedd yn wir feistr ar y cynganeddion. Trwy briodas, daeth yn un o deulu enwog y Cilie, ac yr oedd yn fardd a oedd yn credu mewn cynhyrchu gwaith a oedd yn ddealladwy.

Dyma ran o'r cywydd tyner a gyfansoddodd pan oedd yn athro ysgol, er cof am un o'i ddisgyblion a fu farw'n wyth mlwydd oed.

Er Cof am Dilys, Argoed.  
Distaw dan y glaw a'r gwllith  
Yw y gân ym Mryngwenith,  
Difai wyrth ei phrydferthwch  
Yma'n y Llan roed mewn llwch;  
Harddach na blodau'r gerddi,  
Fy Nilys ddawnus oedd hi.

I'w hoergell aeth o Argoed  
Ddiniweidrwydd wythmlwydd oed  
A gadael ar wag aelwyd  
Yn ei lle yr hiraeth llwyd.

Awn ni'n hen, dirwyna'n hoes  
Dihoeni yw tynged einioes;  
Erys hi fyth yn ifanc,  
Llon ei phryd, llawen ei phranc  
Yn ein co'n dirion a del,  
Nos da fy Nilys dawel.

A dyma gywydd a gyfansoddodd er clod i Dderyn Du a oedd yn enwog am ei gân yn ardal Coedybryn.

Canaf i gerdd ddihafal  
Deryn Du mewn derwen dal,  
O'r llwyn pa gywair llonnach  
Na'i aur bib ben bore bach.  
Ple ceir mwynach, coethach cainc  
Na'i awdl ef rhwng dail ifanc?  
Draw'n y gwydd yng nghyddydd ha'  
Geilw y wawr a'i glir aria.  
Weithian yng nghlyw cytgan côr  
Molaf y cyntaf cantor;  
Deyrn y gerdd draw'n y gwyrddail,  
O drwbawr heb dy ail.

Ond pan ddaw'r Gaeaf -

Gwn y daw Gaeaf i'n dôr,  
Daw a'i ôd a'i rew didor;  
Daw'r heth, a'r deri weithion  
Heb eu dail, a thi heb dôn  
Ar hin oer a'r llawr yn wyn  
Doi ataf yn gardodyn,  
Doi i'r drws mewn pryder dro,  
Heibio'n swil heb un solo.

Gyfaill, bryd hyn mi gofiau  
Dy lais hwyr rhwng deilos haf,  
Yn awr prinder y gweryd  
Cei orau 'mord, bynciwr mud,  
Rhag i haf ddod i'r wig hen  
Heb foliant dy bib felen.

Yn yr Awdl rymus a enillodd iddo Gadair Eisteddfod Genedlaethol 1958 ar y testun 'Caerllion-ar-Wysg', hen bennaeth o Frython sydd ganddo yn rhybuddio ei gyd-Frythoniaid i beidio cael eu denu gan ddiwylliant estron y bobl yn y Gaer Fawr sydd wedi gorchfygu eu gwlad.

Syllai gwr, henwr unig,  
Draw a gweld wrth odre gwig  
Ddaear ir y wedd a'r og,  
Braf eu llun, bro feillionog.

Ac yno gwel gaer y gelyn,  
Ie, delaid waith dwylo dyn;  
Anghenfil gaer y miloedd,  
Hendre nerth yr estron oedd.

Gwel y perygl i hen ddiwylliant y Brythoniaid,  
Yr iaith ddileidiaith, cyn awr ei thlodi,  
Cyn i Ladin taeog ei halogi,  
Rhoddes dw' euraid i gerdd a stori  
A byw ddoethineb a ddaeth ohoni;  
Ac ar fant, moesgar fu hi'n wastadol  
A'n gwyhych orffennol yn waddol iddi.

Nid arfau'r Rhufeinwyr sy'n ei ddychrynu, ond dengarwch eu diwylliant a'u byd gwahanol i'w gyd-Frythoniaid.

Nid ei chadernid na'i dur  
Na holl aidd ei lluyddwyr,  
Na her ei maint na'i grym hi,  
Na manwl grefft ei meini  
A'm lludd, ond ei chymell-wên  
A rhwydwaith swyn yr hoeden.

Mae ynddi neges i'n hoes ni.

**T.M.Thomas**

### CYSTADLEUAETH!

Cyfle i ennill tocyn gwerth £10 i'w wario yn Siop y Cennen! Atebwch y cwestiwn isod a'i anfon at: Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HW neu e-bostiwrch eich ateb i: danielthomas@menterbrodinefwr.org cyn 2 Ionawr 2011.

**Beth yw Plygain?**

**Ateb:**.....

**Enw:**.....

**Cyfeiriad:**.....

.....

Ateb cystadleuaeth Tachwedd oedd - Siôn Eirian ac Ed Thomas a'r enillydd oedd: **Mair Williams**, Coedlan, Llangadog.

### SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN

LLYFRAU \* CRYNODDISGIAU \* CARDIAU

CREFFTAU \* FIDEOS \* C.D.ROMau \* CASETIAU

*Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau*

☎ (01269) 595777 ✉ hywelbowen@googlemail.com

## ~ Y BYD A'R BETWS ~

**Neges gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bydd 2011 yn flwyddyn bwysig iawn i ddemocratiaeth yng Nghymru, pan gawn dri chyfle i bleidleisio.

Nid yn unig y byddwch yn pleidleisio i benderfynu pwy fydd yn eich cynrychioli yn y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd am y pedair blynedd nesaf; cewch hefyd gyfle i ddweud eich dweud am faint o bwerau y dylai'r cynrychiolwyr hyn yn y Cynulliad eu cael o ran eu gallu i ddeddfu dros Gymru.



Ar **3 Mawrth 2011**, cynhelir refferendwm i ofyn a ydych chi'n meddwl y dylai'r Cynulliad gael y pŵer i ddeddfu ar **bob** un o'r materion yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau drostynt, heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf.

Yna, ar **5 Mai 2011**, cewch gyfle i bleidleisio dros bwy yr hoffech i'ch cynrychioli fel eich Aelodau Cynulliad pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ei bedwerydd etholiad Cynulliad.

Yn olaf, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn cynnig cynnal refferendwm ar 5 Mai ar gyflwyno system pleidleis amgen newydd ar gyfer etholiadau San Steffan.

Chi, fel pleidleiswyr, fydd yn penderfynu beth fydd canlyniadau'r digwyddiadau pwysig hyn. Fel dinasyddion Cymru, mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau hyn drwy fynd i bleidleisio a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.

Fel Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, rwy'n gobeithio eich bod yn teimlo'n ddigon angerddol dros ddemocratiaeth yng Nghymru i fynd i'r drafferth o bleidleisio. Bydd eich rhan chi yn y prosesau hyn yn holl bwysig i lunio Cymru'r dyfodol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn [www.cynulliadcymru.org/pleidleisiwch2011](http://www.cynulliadcymru.org/pleidleisiwch2011)

**Oriel Myrddin**

Mae Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin yn cynnal eu harddangosfa gaeaf. Bydd arddangosfa 'LUX' yn cyflwyno gweithiau sy'n canolbwyntio'n benodol ar oleuni ac ar ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau. Mi fydd hyn yn cynnwys gweithiau serameg, gemwaith, brethyn, printiau a darluniau wedi eu paentio.



Bydd yr arddangosfa'n cynnwys gwaith gan y ddeuawd - Hannah Plumb a James Russell - sy'n dangos eu gwaith am y tro cyntaf yng Nghymru. Yn ôl yr oriel, mae eu gwaith yn cymryd hen wrthrychau sydd wedi mynd yn angof ac sy'n cael eu hesgeuluso, a'u trawsnewid mewn i ddarnau newydd hardd a defnyddiol.

Bydd gwaith artistiaid eraill o Gymru yn cael eu dangos hefyd, fel Ainsley Hillard; Buddug Wyn Humphreys; Anna Lewis; Gwyn Williams; Virginia Graham; Caitlin Jenkins ac Ifor Davies. Bydd arlunydd brethyn o Landysul, Seren Stacey, yn cynnal gweithdy yno yn ogystal - mae hi wedi cael ei chomisiynu i ddylunio coeden Nadolig i'r oriel. Mae LUX yn cael ei gynnal yn ystod Tachwedd a Rhagfyr, 2010.

**DOCTOR! DOCTOR!****Y Ffliw**

Mae gan bawb dros 65 oed, pawb sy'n dioddef o salwch tymor hir yn ogystal â phrif ofalwyr yr henoed neu'r anabl hawl i bigiad rhag y fflwiw yn rhad ac am ddim. Wrth wneud hyn byddwch yn diogelu eich hunan a hefyd y bobl mwy bregus o'ch cwrmpas rhag y fflwiw. Ffoniwch y Feddygfa i wneud apwyntiad.

**Cadwch yn gynnes, yn iach ac yn ddiogel**

Pob blwyddyn caiff 50 o bobl eu lladd yn Nghymru a Lloegr oherwydd effeithiau nwy carbon monocsid. Gall anadlu lefel isel o'r nwy dros amser gael effaith andwyol ar iechyd. Gan nad oes arogl ar garbon monocsid a gan ei fod yn nwy anweladwy mae'n holl bwysig gwneud yn siwr bod unrhyw offer gwresogi a choginio sy'n llosgi nwy, olew, glo neu goed yn cael eu harchwilio gan beirianwr apwyntiedig yn rheolaidd. Dyma rai o arwyddion presenoldeb carbon monocsid yn y cartref :

- Fflam nwy sydd fel rheol yn llosgi'n las yn oren neu felyn
- Tanau glo neu goed yn llosgi'n araf neu'n diffodd.
- Tân sy'n anodd i'w gynnu.
- Mwg yn yr ystafell - gall simnau fod wedi blocio.
- Dim aer yn cylchdroi yn yr ystafell.
- Teimlo'n swrth, yn gysglyd, yn benysgafn, yn gyfoglyd neu'n dioddef o ben tost neu boen yn y frest.

**CHAAP**

CHAAP - *Community Health Across Agencies Project* neu brosiect Iechyd Cymuned Ar draws Asiantaethau.

Cymerodd tair nyrs o Feddygfa Teilo ran mewn prosiect arloesol ochr yn ochr â thimoedd o Lanfair ym Muallt a Chrughywel ym Mhowys. Mae Sr, Annwen Jenkins, Staff-Nyrs Janet Rees a Chynorthwy-ydd Gofal Iechyd Catrin Evans yn defnyddio ffonau symudol 'Smartphone' yn y gymuned er mwyn casglu a chofnodi gwybodaeth yn y fan a'r lle wrth iddyn nhw fynd o gwmpas eu dyletswyddau allan o'r swyddfa.

Bwriad CHAAP ydy byrhau yr amser mae'n ei gymryd i weithwyr proffesiynol gofal iechyd i gasglu a phrosesu gwybodaeth am gleifion ac i gwtogi ar y gwaith papur yn sgil hynny.

Bu'n waith ychwanegol i'r tîm i ymgymryd â'r peilot ac mae'n rhaid diolch iddyn nhw am eu parodrwydd a'u brwdfrydedd.

Yn ystod y deufis diwethaf mae nyrsus cymuned Meddygfa Tywi, Nantgaredig a Meddygfa Llanfair, Llanymddyfri wedi eu cynnwys yn y cynllun peilot lleol.

(Gyda chaniatâd caredig **Meddygfa Tywi**)

**Cymdeithas Brodwaith Cymru**

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Dyma'r pumed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon.

Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru.

Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn.

I gael ffurflen gais neu ychwaneg o wybodaeth cysylltwch â Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD.

[maes.meini@lineone.net](mailto:maes.meini@lineone.net)

Y dyddiad cau fydd 30 Ionawr, 2011.

**CYLCHOEDD TI A FI**

Er eich gwybodaeth - dyma fanylion am chwe o'r cylchoedd sy'n gwneud gwaith gwyd gyda phlant ifanc iawn.

**Cwmifor**

Dydd Llun, 10am - 12pm

Neuadd y Pentre

**Llandeilo**

Dydd Mercher, 9.30am - 11.30am

Ystafell Gelf Ysgol C.P

**Llanwrda**

Dydd Mercher, 9am - 11.15am

Neuadd yr Ysgol

**Llanymddyfri**

Dydd Mercher, 9.30am - 11.30am

Neuadd Gatholig

**Llangadog**

Dydd Gwener, 10am - 11.30am

Neuadd y Pentre

**Nantgaredig**

Dydd Iau, 10am - 12pm

Canolfan Gymdeithasol Felin-gwm



**MUDIAD  
YSGOLION  
MEITHRIN**

**Môr o Leisiau Myrddin**

Ar nos Sul, 20 Mawrth 2011 am 6.30pm yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin, cynhelir achlysur cyffrous sef *Môr o Leisiau Myrddin* o dan arweiniad John S Davies a gyda'r organydd Meirion Wynn Jones. Anelir at gael 600 o gantorion ynghyd i ganu detholiad o emynau gan yr emynwyr megis Dyfnallt, Gwilym Hiraethog, John Gwilym Jones, Simon B Jones, T Elfyn Jones, Maurice Loader a John Thomas. Bydd yna hefyd gôr o 100 o leisiau yn canu tair anthem. Gwnewch nodyn o'r dyddiad a byddwch yn barod i fod yn rhan o'r achlysur. Y gobaith yw cael noson ysbrydoledig a chyffrous - fe ddarlledir y cyfan ar gyfer y rhaglen Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

# Y Gofrestr Etholwyr



## Rhaid ichi fod wedi cofrestru os ydych am bleidleisio mewn etholiadau

Ymhlith Etholiadau'r flwyddyn nesaf bydd refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (3/3/11), Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (5/5/11) a Refferendwm ledled - Y Deyrnas Unedig (5/5/11).

**Cofiwch nad yw'r ffaith eich bod yn talu Treth y Cyngor yn golygu eich bod wedi eich cofrestru i bleidleisio, rhaid ichi gofrestru ar wahân.**

Hefyd, gall effeithio ar eich statws credyd os nad ydych wedi cofrestru.

**Am fwy o wybodaeth, galwch ein llinell gymorth ar 01267 228889 neu ebostiwch gwasanaethauetholiadol@sirgar.gov.uk**

**\*\*\* NEGES BWYSIG \*\*\***

**Gellir derbyn Y Lloffwr mewn 3 ffordd eto yn 2011!**

- (1) 10 rhifyn i'ch drws drwy ddosbarthwr lleol am £8 y flwyddyn
- (2) tanysgrifio am 10 rhifyn drwy'r post am £16 y flwyddyn
- (3) prynu'r *Lloffwr* yn fisol yn eich siop leol am 80c

**I sicrhau eich copi argymhellir opsiwn 1 neu 2 uchod**

**Am fanylion pellach cysylltwch â'r  
Swyddog Tanysgrifio, Peter Harries  
ar (01558) 823075**

**Y LLOFFWR AR Y WE!**

Mae manylion am **Y Lloffwr** bellach i'w gweld ar y gwefannau canlynol:

**Golwg360 / Hafan - Lle Pawb**  
[www.golwg360.com](http://www.golwg360.com)

**Gwefan Swyddogol Y Lloffwr -**  
[www.ylloffwr.org](http://www.ylloffwr.org)

**HYSBYSEBU YN Y LLOFFWR**

Mae tua 3,000 o bobl yn darllen *Y Lloffwr* bob mis, felly os hoffech dynnu sylw at eich busnes gallwch hysbysebu yn y papur am brisau cystadleuol iawn gyda gostyngiad o 50% am hysbyseb blwyddyn (10 rhifyn).

|                      | 1 Mis   | 10 Mis  |
|----------------------|---------|---------|
| <b>Tudalen gyfan</b> | £144.00 | £720.00 |
| <b>1/2 Tudalen</b>   | £72.00  | £360.00 |
| <b>1/4 Tudalen</b>   | £36.00  | £180.00 |
| <b>1/8 Tudalen</b>   | £18.00  | £90.00  |
| <b>1/12 Tudalen</b>  | £12.00  | £60.00  |
| <b>1/24 Tudalen</b>  | £6.00   | £30.00  |

*Cyfarchion Personol neu Arbennig* £10.00 (1 mis)

*Dosbarthu taflenni/cylchlythyron* £72.00 (1 mis)

Gellir trafod anghenion arbennig megis cornel neu waelod tudalen, neu hysbyseb lliw fel bo'r galw. Rhaid talu ymlaen llaw i dderbyn y telerau uchod a rhoddir copi am ddim o'r *Lloffwr* i bob hysbysebwr. Am fanylion pellach cysylltwch â **Wyn Williams**, Swyddog Hysbysebion *Y Lloffwr* ar:

**(01550) 777834**

**CYSTADLEUAETH NADOLIG**

Beth ydych chi'n meddwl oedd neges Clive Rowlands i Tywysog Charles?

Anfonwch eich atebion i'r Uwch Olygydd neu e-bostiwch y lloffwr@papurbro.org cyn 2 Ionawr 2011

**EISTEDDFOD PUMSAINT 2010**

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol flynyddol Capel Pumsaint yn Neuadd y Coroniad dydd Sadwrn, 30 Hydref. Llywyddion y dydd eleni oedd Eiddwen Lewis, Godregarth, a Mair Reed, Garej Checkpoint.

Y buddugol yng nghystadleuaeth y gadair am soned ar y testun "Llwybrau" oedd Elonwy Phillips, Hendygywyn ar Daf. Cyflwynwyd y gadair gan Ceinwen a Tegwyn a'r teulu er cof am Mr a Mrs John Lloyd, Bryn y wawr. Enillwyd tlws yr ifanc gan Meinir Jones, Capel Isaac.

**Canlyniadau cystadlaethau lleol**

Adrodd 6 a dan 8 – Sammy Priestland, Pumsaint.

Unawd 6 a dan 8 – Sammy Priestland, Pumsaint

Adrodd dan 6 – Kathy Priestland, Pumsaint

Unawd dan 6 – Kathy Priestland, Pumsaint

Adrodd 8 a dan 10 – Ifan Lewis, Crugybar

Unawd 8 a dan 10 – Ifan Lewis, Crugybar

Adrodd 10 a dan 12 – Luned Jones, Ffarmers

Unawd offeryn cerdd ysgol gynradd – Luned Jones, Ffarmers

Ateb 6 cwestiwn ysgol gynradd – Lisa a Luned

Canu emyn ysgol uwchradd – Carys Evans, Caio

Pwyntiau mwyaf yn y cyfngedig – Luned Jones

Parti Canu – Ysgol Gynradd Caio

**Arlunio**

Dan 6 – Lisa Jones, Ffarmers

6 a dan 8 – Ethan Schuman – Smith, Pumsaint

8 a dan 10 – Dafydd Jones, Crugybar

10 a dan 12 – Luned Jones, Ffarmers

12 a dan 14 – Emma Lewis, Crugybar

Tarian her Dai a Sallie Davies, Ynysau – Emma Lewis

**Llawysgrifen**

Dan 6 – Lisa Jones, Ffarmers

6 a dan 8 – Serena Flanagan, Ysgol Gynradd Caio

8 a dan 10 – Lisa Lewis, Pumsaint

10 a dan 12 – Anna Davies, Ffarmers

Tlws Mr a Mrs Manifold – Anna Davies

**Cystadlaethau Agored**

Adrodd dan 6 – Sara Evans, Tregaron

Unawd dan 6 – Sara Evans, Tregaron

Adrodd 6 a dan 8 – Megan Fflur, Llanarthne

Unawd 6 a dan 8 – Eiriana Campbell, Caerdydd

Adrodd 8 a dan 10 – Hanna Medi Davies, Gwyddgrug

Unawd 8 a dan 10 – Charlotte Saunders, Cwrtnewydd

Adrodd 10 a dan 12 – Ffion Gwaun, Abergwaun

Unawd 10 a dan 12 – Ffion Gwaun, Abergwaun

Canu emyn dan 12 – Ela Evans, Felinfach

Adrodd 12 a dan 16 – Carys Evans, Caio

Unawd 12 a dan 16 – Carys Evans, Caio

Adrodd 16 a dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Unawd 16 a dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Darllen darn o'r ysgrythur dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Unawd unrhyw offeryn cerdd dan 19 – Gwenllian Llwyd, Talgarreg

Talgarreg

Ateb 6 cwestiwn dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Canu emyn 12 a dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Deuawd dan 19 – Heledd a Gwenllian Llwyd, Talgarreg

Alaw werin dan 19 – Gwenllian Llwyd, Talgarreg

Canu penillion dan 19 – Heledd Llwyd, Talgarreg

Can allan o sioe gerdd – Laura Blundell, Crymych

Parti canu – Cwennod Pumsaint

Deuawd – Ffion a Meinir Jones, Llanfynydd

Her unawd – Helen Pugh, Llandeilo

Canu emyn 19 a dan 60 – Laura Blundell, Crymych

Darllen darn o'r ysgrythur – Margaret Bowen, Llanelli  
Canu emyn dros 60 – Gwynfor Harries, Blaenannerch  
Deuawd dros 19 – Ffion a Meinir Jones, Llanfynydd  
Yr her adroddiad – Laura Blundell, Crymych  
Unawd Gymraeg – Margaret Bowen, Llanelli  
Mwyaf addawol yn yr adran adrodd – Ffion Gwaun  
Mwyaf addawol yn yr adran canu – Charlotte Saunders

**Llenyddiaeth**

Englyn – J B Phillips, Caerfyrddin

Brawddeg – Carys Briddon, Ceredigion

Emyn – J B Phillips, Caerfyrddin

Tair dihareb newydd – Vaughan Roberts, Corwen

Gorffen Triban – J B Phillips, Caerfyrddin

Gorffen Limeric – John Thomas, Frongoch

Pennill addas i'w roi ar gerdyn gwahoddiad i barti Nadolig –

Mary Morgan, Llanrhystud

Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg – John Meurig Edwards, Aberhonddu

Limeric y dydd, Gwobr goffa Rhun Jones – Eirwyn Jones, Aberbranddu

*Enillydd y gadair am soned ar y testun "Llwybrau" oedd Elonwy Phillips, Hendygywyn ar Daf (Pontargothi gynt). Mae Elonwy ar staff Llyfrgell Caerfyrddin ac wedi ennill pedair cadair eisoes*



*Enillydd Tlws yr Ifanc (dan 25 oed) oedd Meinir Jones o Capel Isaac. Mae'n aelod gweithgar o fudiad y Ffermwyr Ifanc sydd newydd ennill y gadair yn Eisteddfod Sir y mudiad.*

*Daeth Luned Jones, Ffarmers yn gyntaf ar yr adrodd 10-12, yn gyntaf ar chwarae offeryn cerdd ac enillodd fedal am arlunio (cystadleuaeth gyfyngedig i Ysgolion cynradd)*

*Lluniaugan Tim Jones, Llanbed*





## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL GYNRADD YR EGLWYS LLANFYNYDD

Mae blwyddyn ysgol newydd wedi dechrau ac estynnir croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd sef Glasnant a Daniel. Pob dymuniad da hefyd i Lowri, Emma a Tomos sydd bellach wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Tre-gîb.

#### Diolchgarwch

Yn ôl yr arfer y mae'r plant wedi bod yn cymryd rhan mewn gwasanaethau diolchgarwch yng Nghapel Spite, Capel Amor ac yn Eglwys Llanfynydd. Cafwyd perfformiadau graenus gan y disgyblion a te blasus iawn i ddilyn yr oedfaon. Codwyd swm anrhydeddus o arian tuag at Meddygfa Teilo, Llandeilo a Meddygfa Tywi, Nantgaredig yn ystod oedfa'r Eglwys.

#### Chwaraeon

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5/6 amser da iawn yn ddiweddar pan wnaethant ymuno â disgyblion o Ysgol Gynradd Cwrt Henri i greu tîm rygbi unedig. Buont yn cystadlu mewn cystadleuaeth rygbi tag yng Nghae Wiliam Llandeilo yn erbyn ysgolion eraill o'r cylch.

#### Ymweliadau

Bu'r disgyblion lleiaf yn ymweld â Jambori yn ddiweddar yn Llandeilo lle cawsant lawer iawn o hwyl tra bod disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael amser difyr mewn gweithgareddau 'pontio' yn Ysgol Gyfun Tre-Gîb.

#### Urdd

Mae'r Urdd wedi ail gychwyn ac yn cwrdd ar ôl ysgol ar ddydd Mercher. Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau i'r aelodau. Hyd yma y mae'r nosweithiau chwaraeon a'r sgiliau syrcau wedi profi'n boblogaidd iawn.

### Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Llanfynydd

Mi wnaeth y gymdeithas gynnal 'Rasys Moch' ar ddechrau'r tymor ar fferm Brynawelon. Cafwyd llawer o hwyl a byrgers blasus yn ogystal ag elw da tuag at goffrau'r ysgol. Diolch i bawb a wnaeth weithio mor galed mor gynnar yn y tymor newydd ac i Ian a Sarah Thomas am gael defnyddio eu cyfleustarau unwaith eto.

Cynhelir Ffair Nadolig y gymdeithas yn yr ysgol ar nos Iau, 2 Rhagfyr am 7pm a'r cyngerdd Nadolig ar nos Sul, 12 Rhagfyr yn Eglwys Llanfynydd. Croeso cynnes i bawb.

### YSGOL GYNRADD BRECHFA

Mae Ysgol Brechfa newydd dderbyn eu pedwerydd deilen ysgol iach. Yn y llun gweler Ffion Dart Bl6 ac Olivia Cranch Bl2, aelodau o'r cyngor yn derbyn y wobwr ar ran yr ysgol.

Isod, rhai o blant Adran y Babanod gyda'r blychau 'Operation Christmas child' sydd ar eu ffordd at blant llai ffodus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



### YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU

Cawsom noson lwyddiannus yn y disgo calan gaeaf. Cafodd pawb lawer o hwyl a sbri. Enillwyr y gystadleuaeth gwisg ffansi oedd Rory Dougherty Hooper a Rowan Shimmin o'r cyfnod sylfaen a Flo Jenkinson a Finn Wealleans o gyfnod allweddol 2. Da iawn chi.



Bydd Sioe Nadolig Ysgol Gynradd Tallyllychau yn cael ei chynnal ar ddydd Iau, 9 Rhagfyr. Bydd yna ddau berfformiad am 1.30pm a 7.00pm. Croeso cynnes i bawb. Am unrhyw wybodaeth cysylltwch â'r ysgol ar (01558) 685356.

Mae ein prosiect ail gylchu eco sgolion wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod y tymor diwethaf. Rydym wedi casglu nifer o getris inc, hen ffonau symudol a bateriau. Mae croeso i chi ddod â'r uchod i'r ysgol er mwyn inni eu hail gylchu i gasglu arian ar gyfer elusen a ddewisodd y plant.

### YSGOL GYNRADD LLANSADWRN

Bu tymor yr Hydref yn hynod o brysur. Bu'r plant i gyd ar gwrs nofio bob bore yn ystod tair wythnos cyntaf y tymor ar y cyd gyda phlant Capel Cynfab a Chil-y-cwm. Yr uchafbwynt oedd Gwyl Nofio ar y bore olaf, lle estynwyd gwahoddiad i'r rhieni i arsylwi.

Bu disgyblion Blwyddyn 6 a 7 ysgolion Teulu Pantycelyn yn rhan o gynllun cyffrous Rheilffordd Canolbarth Cymru – bu'r plant am daith ar y trên i Landrindod a mynychwyd gwersi hanes a daearyddiaeth yn Ysgol Pantycelyn er mwyn creu arddangosfa.

Wedi ymadawiad y Parchedig Adrian Legg, aeth plant CA2 ati i drefnu'r Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr eglwys. Cafwyd eitemau cerddorol a darlleniadau ganddynt – braf oedd gweld eu perfformiadau grymus ac hyderus!

Buom yn ysgol Cil-y-cwm ar gyfer gweithdy technoleg XLWales. Bu CA2 wrthi yn datrys "Problem y Glöwr" i gefnogi gwaith hanes a daearyddiaeth y tymor a'r Cyfnod Sylfaen yn creu ceir i'r eirth. Bu Cit Techniquet ar daith gyda ni hefyd – cafwyd hwyl yn arbroti gydag amrywiaeth o bosau gwyddonol ar thema Grymoedd.

Aeth plant iau 5 Ysgol Pantycelyn Wledig ar daith i Bwll Mawr Blaenafon.

Diolch i Ysgol Llangadog am y gwahoddiad i gael sesiwn yn y Bws Ceginio – roedd pob plentyn yng NghA2 wedi creu *couscous* amryliw a salad ffrwythau ffres i fynd adref gyda nhw i swper.

Cynhaliwyd gweithgareddau "smotiog" ar gyfer Plant Mewn Angen eleni – digon o hwyl a sbri a chyfraniad i achos da!

Mae Sarah Jones o Fenter Bro Dinefwr wedi bod yn cynnal sesiynau celf gyda'r plant. Arddangosir eu gwaith yn yr ysgol ar noson y Sioe Nadolig sef 6 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb i'r Eglwys am 5pm a wedyn i'r ysgol am luniaeth ac i weld y lluniau.

**~ ADRAN YR YSGOLION ~****YSGOL GYFUN TRE-GÎB**

Bu dathliadau mawr yn Ysgol Gyfun Tre-gîb ar ddechrau Tachwedd pan enillodd y tim merched dan 16 oed bencampwriaeth hoci *Top Schools* Sir Gaerfyrddin. Roedd saith ysgol yn cystadlu ac ar ôl diwrnod o gystadlu brwd enillodd Tre-gîb yn erbyn Ysgol Cwin Elisabeth Caerfyrddin yn y ffeinal.



Y tîm merched llwyddiannus gyda'u hyfforddwyr Mrs. H Miller a Miss George.

(Llun: John Davies, Llandybie)

**YSGOL GYNRADD LLANGADOG**

Bum yn ddigon ffodus i gael Bws Coginio'r Cynulliad i ymweld â ni yn Llangadog yn ddiweddar. Am ei fod mor fawr nid oedd yn bosib i ni ei leoli ar dir yr ysgol a bu'n rhaid edrych am safle arall. Hoffem gymeryd y cyfle yma i ddiolch i Mr Hefin Roberts am ei barodrwydd i'n helpu wrth ein galluogi i osod y bws ar ran o safle AWS yn y pentref.

Cafodd bob un o blant yr ysgol y cyfle i fynychu sesiwn ar y bws gan baratoi bwydydd amrywiol. Roedd yn addysgiadol, iachus a'n llawer o hwyl. Pwy a wŷr a fydd y Dudley Newbury nesaf yn dod o Llangadog!



Rhai o blant dosbarth pedwar ar y bws coginio

Mi fydd perfformiadau Nadolig yr ysgol yn neuadd y pentref eleni a hynny yn ystod prynhawn a nos Iau, 9 Rhagfyr. Mi fydd tocynnau ar werth o swyddfa'r ysgol - cysylltwch â Helen ar (01550) 777519 i archebu'ch rhai chi.

**CYLCH MEITHRIN FFAIR-FACH**

Plant Cylch Meithrin Ffair-fach wedi gwisgo mewn smotiau ar gyfer ymgyrch Plant mewn Angen.



Rhai o blant Cylch Meithrin Ffair-fach gyda Pudsey



Plant sy'n mynychu'r Cylch bore wedi gwisgo mewn smotiau

**mae gen ti ddewis...** i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg



## ~ LLWYDDIANT C.Ff.I. SIR GÂR ~



*C.Ff.I. Llanfynydd - y grŵp ensemble lleisiol a enillodd eu cystadleuaeth yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.*



*Sgets y sioe gan aelodau C.Ff.I. Dyffryn Cothi - y sgets orau yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.*



*Côr C.Ff.I. Llangadog dan arweiniad Nia Clwyd a ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.*

*Aelodau clwb Llanfynydd yn derbyn y cwpan i'r clwb a wnaeth orau yn holl gystadlaethau siarad cyhoeddus y sir yn ystod y flwyddyn.*



*Aled Jones, C.Ff.I. Dyffryn Cothi a ddyfarnwyd yn siaradwr gorau yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg - adran hŷn y sir.*



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I HOLL DDARLLENWYR Y LLOFFWR**

